# Trechu Tlodi: Ein Strategaeth 2023

Pembrokeshire Public Services Board

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

Cyngor Sir Penfro - Pembrokeshire County Council

# Cynnwys:


Adran 1:
**Rhagair**

Adran 2:
**Pam y strategaeth hon?**

Adran 3:
**Tlodi yn y DU, yng Nghymru ac yn Sir Benfro**

Adran 4:
**Realiti tlodi yn Sir Benfro**

Adran 5:
**Beth ydym ni wedi'i wneud hyd yn hyn?**

Adran 6:
**Cynllun Gweithredu**


**Trechu Tlodi: Ein Strategaeth 2023**

# Adran 1: Rhagair

Trechu Tlodi: Ein Strategaeth 2023

## Adran 1: Rhagair gan y Cyngh. Neil Prior, Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro a geiriau o gefnogaeth gan Darren Mutter, Cadeirydd Gweithgor Tlodi Sir Benfro a Phennaeth y Gwasanaethau Plant yng Nghyngor Sir Penfro.

Mae tlodi yn fater difrifol a chynyddol i gymdeithas fodern, ac mae hyn yn amlwg yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol. Mae gwahaniaethau helaeth yn ein cymdeithas rhwng y rhai sy'n 'gefnog' a'r rhai sydd heb ddigon o adnoddau i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol. Ein nod ar gyfer y strategaeth hon yw gwneud Sir Benfro'n lle tecach a mwy cynhwysol, creu cyfleoedd i'n dinasyddion gyrraedd eu llawn botensial a byw bywydau ffyniannus a boddhaus heb fod mewn tlodi.

Wrth ddatblygu'r strategaeth tlodi hon ar gyfer Sir Benfro, rydym wedi edrych ar y materion blaenoriaeth y mae pobl yn ein Sir yn eu hwynebu wrth brofi caledi, ochr yn ochr ag adnabod yr hyn sy'n gweithio i gynorthwyo pobl i ddod o hyd i'w ffordd tuag at amgylchiadau gwell. Yn ogystal ag ystyried arbenigedd gweithwyr proffesiynol sydd â'r profiad a'r awdurdod i achosi newid, yn hollbwysig rydym wedi cynnwys pobl â phrofiad uniongyrchol o dlodi wrth ddatblygu'r strategaeth hon fel bod eu llais yn cael ei werthfawrogi a'i rymuso fel rhan o'r broses ar gyfer newid.

Mae'r strategaeth hon yn ceisio sicrhau bod gwaith i atal a lleihau tlodi'n cael y ffocws y mae ei wir angen arno. Er y gallwn ddathlu a manteisio ar arfer da a chymorth presennol yn ein cymunedau, rydym hefyd yn ceisio ymrwymiad hirdymor i gamau gweithredu a fydd yn cynorthwyo pobl leol mewn angen i ymgodymu ag amser cythryblus gyda strwythur cymorth cadarn.

Mae'r strategaeth hon yn cynnig gweledigaeth glir o flaenoriaethau i fynd i'r afael â hwy, ac mae'n amlinellu pa gamau gweithredu fydd yn cael eu cymryd ar y cyd mewn ymateb uniongyrchol. Bydd ganddi rôl hanfodol o ran alinio ymdrechion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yr Awdurdod Lleol a phartneriaid ehangach i sicrhau dull cydgysylltiedig; yn ogystal â sicrhau bod y rhai sydd mewn angen yn gwbl ganolog i bob penderfyniad a wneir.

Mae atal a lleddfu tlodi'n flaenoriaeth glir i'r holl bartneriaid sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r strategaeth hon. Rydym yn bwriadu defnyddio ein hadnoddau a'n dylanwad cyfunol i wella ansawdd bywyd trigolion lleol, gyda gweledigaeth hirdymor ar gyfer y Sir sy'n hybu cydgyfrifoldeb i feithrin amgylchedd lle gall pobl yn Sir Benfro ffynnu.

Mae ein cynllun yn canolbwyntio'n glir ar sut y byddwn yn helpu'r sir i adeiladu ar gydnerthedd cryf pobl a chymunedau lleol i greu dyfodol tecach, iachach, mwy llewyrchus a chynhwysol i bawb. Edrychaf ymlaen at weld y strategaeth hon yn dod yn fyw gyda chamau gweithredu go iawn yn cael eu cymryd i gefnogi pobl Sir Benfro.

**Y Cyngh. N Prior**

Mae'n hawdd dychmygu nad yw tlodi’n broblem yn Sir Benfro. Mae'n lle hardd a phoblogaidd i ymweld ag ef, gydag ardaloedd â phrisiau eiddo uchel, ardaloedd o olud, a phobl ag arian i'w wario. Fodd bynnag, y gwir anorchfygol yw, y tu ôl i ffasâd y Sir Benfro a welir yn aml gan dwristiaid, bod pobl yn gyson yn llwgu, yn mynd heb ddiwallu eu hanghenion sylfaenol, ac yn byw yn yr amgylchiadau ariannol mwyaf heriol fel y bydd effeithiau negyddol ar eu bywydau am flynyddoedd i ddod.

Bydd pobl mewn tlodi’n profi deilliannau gwaeth ar hyd eu hoes, a bydd plant sy'n tyfu mewn tlodi’n cael llawer llai o gyfle na phlant nad ydynt yn byw mewn tlodi, i gyflawni deilliannau da iddynt hwy eu hunain yn addysgol, gan felly effeithio ar eu gallu i fyw'n dda yn y dyfodol. Mae tlodi yn effeithio ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl; mae'n effeithio ar allu rhywun i gymdeithasu; mae'n effeithio ar hunan-fri; mae'n cynyddu'r risg o ddyled, digartrefedd ac amodau byw aflan. Mae'r holl bethau hyn yn realiti dyddiol i rai pobl yn Sir Benfro.

Mae dyletswydd ar y rhai ohonom sydd mewn swyddi dylanwadol, mewn swyddi breintiedig, nad ydym wedi ein llesteirio gan yr angen i feddwl o ble y daw ein pryd nesaf, i sicrhau yn gyntaf oll ein bod yn gwrando ar y rhai sydd mewn tlodi, i glywed eu straeon ac i rannu eu profiad yn ehangach. Deall sut beth yw tlodi yw'r cam cyntaf o ran gallu mynd i'r afael ag ef. Rhaid i ni barhau i wrando. Rhaid i ni hefyd barhau i neilltuo amser ac ymdrech i'r mater hwn, ar draws ein sefydliadau a chyda grym ac egni.

Yn anffodus, nid yw tlodi’n mynd i ddiflannu ar frys ac felly mae'n rhaid cynnal ein hymdrech yn y tymor hir. Os gallwn gadw ein ffocws ar y materion, neilltuo ein hegni cyfunol gyda’n gilydd – gan gydnabod ein bod yn fwy na swm ein rhannau – yna gallwn sicrhau newid parhaol ac ystyrlon i bobl Sir Benfro, gan wneud y sir yn lle hapusach ac iachach i'w dinasyddion, lle mae pawb yn cael y cyfle i ffynnu.

**Darren Mutter**

**Cadeirydd Gweithgor Trechu Tlodi Sir Benfro a Phennaeth Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Penfro**

# Adran 2: Pam y strategaeth hon?

## Rhan 2: Pam y Strategaeth hon?

Mae gwreiddiau'r strategaeth hon mewn Hysbysiad o Gynnig gan y Cyngh. David Lloyd a gyflwynwyd gerbron un o gyfarfodydd Cyngor Sir Penfro ar 15 Gorffennaf 2021, ac a ystyriwyd yn y Cabinet ar 4 Hydref 2021. Roedd y cynnig fel a ganlyn:

*"Bod CSP yn sefydlu gweithgor sefydlog, amlddisgyblaethol i fynd i'r afael â thlodi plant yn Sir Benfro. Sir Benfro sydd â'r gyfradd tlodi plant uchaf ymhlith y 22 awdurdod yng Nghymru gyda 31.03% o'n plant yn perthyn i'r categori tlodi cymharol.*

*I ddechrau, byddai'r gweithgor yn cynnwys aelodau etholedig, swyddogion y cyngor, a chynrychiolwyr Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, Planed, Bwrdd Iechyd Dyfed Powys a Cyngor ar Bopeth a fyddai'n cyfarfod mewn ffordd strwythuredig yn y tymor hir i ddileu cywilydd tlodi plant yn ein sir. Wrth i'w waith ddatblygu, byddai rhwydd hynt i'r gweithgor ychwanegu at ei niferoedd trwy gynnwys cynrychiolwyr pellach o gyrff eraill y penderfynwyd eu bod yn berthnasol i'r rhaglen waith barhaus.*

*Ceir awydd cryf ymhlith aelodau a swyddogion i fynd i'r afael â'r broblem mewn ffordd uchel ei phroffil er mwyn rhoi sylfaen o obaith i'r teuluoedd hynny sy'n dioddef tlodi yng nghanol y cyfoeth a breintiau cymharol a fwynheir gan y lliaws."*

Cafodd y cynnig ei ysgogi gan ystadegau a ryddhawyd gan y 'Cynghrair Dileu Tlodi Plant', a oedd yn deillio o'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), ac a oedd yn dangos mai Sir Benfro oedd â'r gyfradd tlodi plant uchaf yng Nghymru ar y pryd, yn seiliedig ar ffigyrau ar gyfer 2019.

Cefnogwyd y cynnig yn unfrydol gan y Cabinet, a phenderfynwyd mai'r ffordd orau o fwrw ymlaen â'r gwaith oedd sefydlu gweithgor swyddogion i ddechrau. Fe wnaeth y grŵp yma amlinellu'r cylch gorchwyl cychwynnol ond yna symudodd yn gyflym i gynnwys partneriaid allanol ehangach, gan gydnabod bod yn rhaid i'r dull o ymdrin â thlodi yn Sir Benfro fod yn 'sir gyfan'. Felly, o ystyried gwasgariad partneriaid a wahoddwyd i ymuno â'r grŵp, roedd yn dilyn yn naturiol y byddai'n bodoli fel un o is-grwpiau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir Benfro lle'r oedd arwain ar y mater yn y cwestiwn. Ym mis Ebrill 2022 cytunodd y grŵp hefyd i ehangu cylch gwaith y prosiect y tu hwnt i dlodi plant yn benodol, i gwmpasu tlodi yn gyffredinol.

Yn ogystal â datblygu'r strategaeth hon, yn anorfod bu'n rhaid i'r grŵp ddatblygu ymateb y Sir i'r argyfwng costau byw a ddechreuodd ddatblygu tuag at ddiwedd 2021. Mae wedi bod yn her cydbwyso'r angen i ymateb i'r argyfwng a chefnogi ein trigolion mwyaf agored i niwed, yn enwedig yn ystod gaeaf 2022/23, yn erbyn y camau gweithredu sy'n canolbwyntio'n fwy ar y tymor canolig a hir y mae'r strategaeth hon yn ceisio eu nodi.

Ar wahân i'r amgylchiadau penodol a arweiniodd at ddatblygu'r strategaeth, fel partneriaid yn y BGC, rydym yn glir bod camau gweithredu i liniaru a mynd i'r afael ag effeithiau tlodi yn elfen hanfodol o'r Amcanion Llesiant a nodwyd gennym yng Nghynllun Llesiant Sir Benfro sy'n cwmpasu'r pedair blaenoriaeth ganlynol:

- Cefnogi twf, swyddi a ffyniant a galluogi'r newid i economi fwy cynaliadwy a gwyrddach
- Gweithio gyda'n cymunedau i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant
- Hyrwyddo a chefnogi mentrau i ddatgarboneiddio, rheoli gwaith i ymaddasu i hinsawdd a mynd i'r afael ag argyfwng byd natur
- Galluogi cymunedau diogel, cysylltiedig, dyfeisgar ac amrywiol

Er mai'r strategaeth hon yw'r cynllun gweithredu ar gyfer yr ail amcan, mae'n amlwg bod cydberthynas â'r amcanion eraill - efallai yn enwedig o ran swyddi a ffyniant a chymunedau dyfeisgar. Wrth i'n gwaith ar yr amcanion eraill hyn ddatblygu, byddwn yn sicrhau bod y dystiolaeth a nodir yn y ddogfen hon yn goleuo'r cynlluniau gweithredu a ddatblygir ar draws yr holl ystod o waith llesiant.

# Adran 3:
# Tlodi yn y DU, yng Nghymru ac yn Sir Benfro

## Adran 3: Tlodi yn y DU, yng Nghymru ac yn Sir Benfro

Nid oes un diffiniad o dlodi a dderbynnir yn gyffredinol, ond mae'r rhai y cyfeirir atynt amlaf wrth lunio polisïau'r DU yn cael eu hesbonio isod.

At ei gilydd, mae tlodi'n cael ei ddeall fel cyflwr o fod **heb ddigon o incwm** (ar gyfer bywyd diogel, iach a boddhaus). Er y gallai fod dadl ynglŷn â'r hyn sy'n cyfrif fel un "digonol", mae bod ag incwm islaw lefel benodol yn ei gwneud hi'n debygol iawn y bydd pobl yn profi amddifadedd, gan arwain at brofiadau negyddol a chanlyniadau bywyd gwaeth. Felly, yn ymarferol, lefelau incwm sy'n aml yn diffinio rhywun fel un sydd mewn tlodi yn y DU.

Yn y pen draw, mae'r profiadau negyddol sy'n gysylltiedig â thlodi (h.y. iechyd corfforol gwael a disgwyliad oes is, amodau byw gwael, diffyg cyrhaeddiad addysgol a chymwysterau proffesiynol, lefelau uchel o straen ac iechyd meddwl gwael, a mwy o amlygiad i wahanol agweddau ar adfyd), yn deillio o'r diffyg adnoddau, cyfleoedd a dewisiadau y mae pobl yn eu hwynebu pan nad oes 'hyblygrwydd' yn eu cyllidebau.

Gellir cymryd y ddau fesur a eglurir isod **Cyn Costau Tai (BHC)**, sydd fel rheol yn cyflwyno darlun mwy cadarnhaol; neu **Ar ôl Costau Tai (AHC)** sy'n rhoi portread mwy cywir o incwm gwario. Ar y cyfan mae costau tai yn y DU yn uchel ond yn eithriadol o amrywiol, gan achosi gwahaniaethau helaeth yn y symiau sydd gan aelwydydd ar ôl ar gyfer costau byw eraill, hyd yn oed yn yr un sir.

### (i) Tlodi Absoliwt

Yn 1995, diffiniodd y Cenhedloedd Unedig **dlodi absoliwt** fel:

**"amddifadiad difrifol o anghenion dynol sylfaenol, gan gynnwys bwyd, dŵr yfed diogel, cyfleusterau glanweithdra, iechyd, lloches, addysg a gwybodaeth"**

Mae'r diffiniad hwn yn bwysig ar gyfer cymharu amodau byw a deilliannau ledled y byd, ond mae'n llai defnyddiol mewn gwlad ddatblygedig lle rydym yn disgwyl y bydd anghenion sylfaenol pawb ar gyfer goroesi'n cael eu diwallu. Yma, mae tlodi'n ymwneud yn fwy â bod heb bethau y mae eraill yn yr un gymdeithas yn eu cymryd yn ganiataol, ac, o ganlyniad, bod yn rhy agored i anawsterau nad oes rhaid i eraill eu hwynebu.

Yn y DU, mae tlodi absoliwt yn cael ei fesur fel:

**Incwm aelwyd sy'n llai na 60% o'r canolrif yn 2011, wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant.**

Caiff incwm canolrifol a gofnodwyd yn 2011 ei ddewis fel pwynt sefydlog y gellir ei ddefnyddio i dracio newidiadau yn safonau byw aelwydydd incwm isel dros amser. Mae'r mesur hwn yn ei gwneud yn bosibl monitro'r cynnydd neu'r ostyngiad yn nifer y bobl o dan bwynt incwm sefydlog ("absoliwt") dros amser. Fodd bynnag, mae'r mesur 60% o'r canolrif, ynddo'i hun, yn fesur cymharol. Fel yr eglurir isod, nid yw mesurau sy'n seiliedig ar gyfran o'r canolrif yn darparu unrhyw wybodaeth am safonau byw. Nid oes gan y mesur hwn unrhyw gydberthynas â'r profiad o dlodi absoliwt fel y'i diffinnir uchod.

***"Mae disgwyl i dlodi plant absoliwt godi 2.9 pwynt canran (400,000 o blant) rhwng 2021/22 a 2023/24."***

***Resolution Foundation, The Living Standards Outlook 2023***

## (ii) Tlodi Cymharol

Mae tlodi cymharol yn y DU yn cael ei fesur fel:

**Incwm aelwyd sy'n llai na 60% o'r canolrif cenedlaethol cyfredol.**

Nid yw'r mesur hwn yn dweud unrhyw beth wrthym am safonau byw gwirioneddol. Pan fo'r canolrif yn uchel, efallai y bydd 60% o'r canolrif yn ddigon i dalu costau pob dydd; pan fydd y canolrif yn isel, yna efallai na fydd hyd yn oed y canolrif yn ddigon ar gyfer bywyd da. Mae'n fesur o anghydraddoldeb incwm yn fwy nag y mae'n fesur o safonau byw, ond gallwn dybio y bydd gan bobl o dan y llinell yn sicr lai o allu i gyrraedd y safon byw a fwynheir yn gyffredinol gan eraill ar y pryd, ac mae'n debygol y byddant yn peidio â chael profiadau a chyfleoedd a gymerir yn ganiataol yn gyffredin. Gellir tracio'r ffigwr hwn hefyd i ddangos y cynnydd neu'r gostyngiad yn nifer y bobl mewn tlodi cymharol dros amser, nid yn ôl swm penodol o incwm, ond mewn perthynas â gweddill cymdeithas.

- Gellir dod o hyd i ddata incwm wythnosol canolrifol ar gyfer Cymru yma
- Gellir dod o hyd i ddata incwm wythnosol canolrifol ar gyfer y DU yma

Roedd incwm wythnosol canolrifol yn y DU yn 2011 yn £498.30 - wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant mae hynny'n £685.23. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar enillion canolrifol cyfredol yn y DU yn ddata ar gyfer 2022 (£640) ac mae'n is na ffigwr 2011 wedi'i addasu. Gallai'r enillion canolrifol cyfredol ddal i fod yn is na ffigwr 2011 wedi'i addasu oherwydd bod cyflogau'n methu â chynyddu yn unol â chwyddiant.

Ers blynyddoedd lawer, y mesur derbyniol o dlodi (sydd, felly, yn "diffinio" tlodi o ran incwm) ledled yr UE a'r DU fu:

**Incwm aelwyd sy'n llai na 60% o'r canolrif cenedlaethol, ar ôl costau tai.**

### Safon Isafswm Incwm


Mae ymchwil bob dwy flynedd yn cadarnhau'r nwyddau, y gwasanaethau a'r profiadau y mae poblogaeth y DU yn cytuno'n gyffredinol eu bod yn hanfodol ar gyfer safon byw ddigonol ond sylfaenol. Cyfrifir costau'r rhain (wedi'u haddasu'n flynyddol ar gyfer chwyddiant) i osod **Safon Isafswm Incwm**, sy'n goleuo'r Cyflog Byw: y gyfradd tâl fesul awr a fyddai'n golygu bod oedolyn sengl sy'n gweithio'n llawn-amser yn cyrraedd ei Safon Isafswm Incwm.

Mae'r rhan fwyaf o aelwydydd yn tueddu i fod angen tua 75% o'r incwm canolrifol i allu fforddio popeth yr ystyrir ei fod yn "hanfodol". Mae hyn yn dangos bod y mesur swyddogol o 60% yn methu â chynnwys llawer o aelwydydd sydd, serch hynny, yn methu â fforddio'r costau dyddiol sy'n gysylltiedig â safon byw ddigonol, sylfaenol, yn ôl disgwyliadau modern.

Yr argoelion yw y bydd incwm yn gostwng i bawb: Ym mis Mawrth 2023, rhagwelodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) y bydd incwm gwario gwirioneddol aelwydydd y pen (mesur o safonau byw) yn gostwng 5.7% yn ystod blynyddoedd ariannol 2022/23 a 2023/24. Mae incwm isel absoliwt yn debygol o godi yn y tymor byr. Rhagwelodd y Resolution Foundation ym mis Ionawr 2023 y bydd incwm isel absoliwt yn cynyddu o 17.2% yn 2021/22 i 18.3% yn 2023/24. Mae hyn yn golygu y bydd 800,000 o bobl ychwanegol mewn incwm isel absoliwt, gyda disgwyliadau y bydd tlodi plant cymharol yn dychwelyd i'w duedd tuag i fyny ar ddiwedd yr argyfwng costau byw ac yn cyrraedd ei lefelau uchaf ers 1998/88 yn 2027/28.

## Cymariaethau Rhyngwladol – Y DU ac Ewrop

Isod ceir map gan Eurostat, sy'n dangos y cyfraddau tlodi ar gyfer aelod-wladwriaethau'r UE. (Y gyfradd sydd "Yn Wynebu Risg o Dlodi" y mae Eurostat yn galw hyn mewn gwirionedd gan gydnabod nad yw bod â 60% o'r incwm canolrifol cenedlaethol "o reidrwydd yn golygu safon byw isel"). Mae'r ffigyrau'n ymwneud â 2021, felly nid ydynt yn cynnwys y DU, a oedd â chyfradd tlodi o 20% yn 2020-21[i], gan ei rhoi'n gydradd 24ain allan o 32 o wledydd a restrir,[ii]





**Cyfraddau Tlodi, Ewrop, 2021 - [https://ec.europa.eu/eurostat/databrowser/view/tespm010/default/map?lang=en](https://ec.europa.eu/eurostat/databrowser/view/tespm010/default/map?lang=en)**

Mae ffigyrau Eurostat yn seiliedig ar ffigurau incwm ar ôl ystyried taliadau treth a nawdd cymdeithasol.

Mae cyfraddau tlodi yn uwch yn Ewrop (ac yn y DU) pan fyddwn yn edrych ar blant yn unig. Mae'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant yn pwysleisio, *cyn* treth a budd-daliadau, bod gan y DU gyfradd tlodi plant uwch nag unrhyw wlad yn Ewrop heblaw Iwerddon.

Mae credydau treth a budd-daliadau yn codi lefelau incwm ar gyfer aelwydydd â phlant fel bod y gyfradd tlodi plant yn fwy cyson â chyfartaledd Ewrop. Mae hyn yn dangos y tlodi mewn gwaith problemus sydd gennym yn y DU: mae lefelau cyflogau'n gymharol is yma nag mewn gwledydd eraill ar y cyfandir. Mae plant yn dibynnu'n fawr ar nawdd cymdeithasol yn ychwanegol at gyflog isel rhieni, er mwyn bod â chyfradd tlodi plant sy'n agos at gyfartaledd Ewrop.




**Ffynhonnell: Y Grŵp Gweithredu Tlodi Plant - https://cpag.org.uk/poverty-across-world**


**Tlodi yn y Deyrnas Unedig**

Mae'r data swyddogol diweddaraf ar gyfer y flwyddyn 2020-21, a oedd yn annodweddiadol o dueddiadau modern oherwydd pandemig y Coronafeirws.

**Roedd 20% o boblogaeth y DU mewn tlodi yn 20-21; 13.4 miliwn o bobl, gan gynnwys:**

- **1.7 miliwn o bensiynwyr**
- **3.9 miliwn o blant**
- **7.9 miliwn o oedolion o oedran gweithio**

Mae data mwy diweddar a rannwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn dangos bod tuag un ymhob chwech o bobl yn y DU mewn incwm isel cymharol (tlodi cymharol) cyn costau tai yn 2021/22. Mae hyn yn codi i ychydig dros un ymhob pump o bobl unwaith y rhoddir cyfrif am gostau tai.



Source: DWP, Households Below Average Income, 2021/22

Mae rhai grwpiau'n fwy tebygol nag eraill o fod mewn tlodi. Yn ôl yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn 2021/22 roedd cyfraddau tlodi ar eu huchaf ar gyfer pobl mewn aelwydydd lle mae'r penteulu yn dod o'r grwpiau ethnig Pacistanaidd neu Fangladeshaidd ac ar eu hisaf ar gyfer y rhai o grwpiau ethnig Gwyn. Mae'r risg o dlodi'n uwch ar gyfer rhai lleiafrifoedd ethnig, a adlewyrchir yn y ffigyrau ar gyfer y cyfnod hwn, gyda thlodi yn cael ei brofi gan:


- Tua 50% o bobl mewn aelwydydd â phenteulu o ethnigrwydd **Bangladeshaidd**.
- Dros 40% o bobl mewn aelwydydd â phenteulu o ethnigrwydd **Pacistanaidd** neu **Ddu**.
- ... sy'n fwy na dwbl cyfradd y bobl mewn aelwydydd â phenteulu o ethnigrwydd gwyn.

Roedd tua 38% o oedolion o oedran gweithio mewn teuluoedd heb waith mewn tlodi cymharol cyn costau tai yn 2021/22, o'i gymharu â 10% mewn teuluoedd lle'r oedd o leiaf un oedolyn mewn gwaith.


Roedd 43% o rentwyr cymdeithasol a 35% o rentwyr preifat mewn incwm isel cymharol ar ôl costau tai yn 2021/22, o'i gymharu â 15% o bobl a oedd yn llwyr berchen ar eu cartref a 9% o'r rhai sydd â morgais.

Roedd cyfran y bobl mewn incwm isel cymharol cyn costau tai (BHC) yn 24% ar gyfer teuluoedd lle mae rhywun yn anabl, o'i gymharu ag 14% ar gyfer pobl sy'n byw mewn teuluoedd lle nad oes unrhyw un yn anabl. Nid oedd unrhyw newid yn y cyfnod hwn o ran y duedd bod tlodi'n fwy cyffredin ymhlith **teuluoedd mwy** (tri neu fwy o blant), ac aelwydydd â **pherson anabl** neu **ofalwr anffurfiol**.

Mae effeithiau maint y teulu ar dlodi'n negyddol ac yn enciliol, sy'n golygu bod teuluoedd mwy yn tueddu i fod ag incwm is, lefelau cynilion is, lefelau addysg is a mwy o ddibyniaeth ar fudd-daliadau lles. Ers 2012/13 mae cyfran y plant mewn teuluoedd mawr sydd mewn tlodi wedi cynyddu'n sylweddol o 33% i 47% dim ond 7 mlynedd yn ddiweddarach.




Ond beth sy'n achosi i bobl syrthio i mewn i dlodi?




Source: DWP, Income Dynamics, Tables 1 and M.9

**Relative influence of factors on length of child poverty spell**

| Factor | Certainty | Strength | Coverage |
|---|---|---|---|
| Long-term worklessness and low earnings | High | High | High |
| Parental qualifications | High | High | High |
| Family instability | High | Medium | Medium |
| Family size | High | Medium | Medium |
| Parental ill health and disability | Medium | Medium | Medium |
| Drug and alcohol dependency | High | High | Low |
| Child ill health | Medium | Low | Low |
| Housing | Low | Low | Medium |
| Debt | Low | Low | Medium |
| Neighbourhood | Low | Low | Medium |

Mae'r tablau uchod yn dangos y ffactorau risg allweddol sy'n cael yr effaith fwyaf o ran pobl yn mynd i mewn i dlodi, yn ogystal ag ar ba mor hir y mae plentyn mewn tlodi.

**Canfu adolygiad y llywodraeth mai'r ffactorau pwysicaf a oedd yn atal teuluoedd rhag gadael tlodi oedd diffyg gwaith hirdymor ac incwm isel rhieni a chymwysterau rhieni.**

Mae'r wybodaeth hon yn rhoi cipolwg i ni nid yn unig ar y rhwystrau y gall pobl eu hwynebu o ran cael eu trapio mewn tlodi, ond hefyd ar sut y gallwn greu llwybrau allan sy'n arwain at ddyfodol mwy llewyrchus a sefydlog yn ariannol i deuluoedd.

**Cymharu Rhanbarthau'r DU**

Oni nodir yn wahanol, mae'r ffigyrau isod yn ymwneud â'r cyfnod hyd at 2021, yr adroddwyd arno yn 2023[iii].

**Gogledd Iwerddon:** Gyda thai rhatach nag mewn mannau eraill, sy'n golygu benthyca llai ac felly llai o log, Gogledd Iwerddon sydd â'r gyfradd tlodi isaf (17%) o'r pedair gwlad yn y DU, er mai hi sydd â'r gyfradd uchaf o ddiweithdra, a bod ganddi gyfraddau uchel o gyflogaeth â chyflog isel a chyfradd uchel o ran hawlio budd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd, yn debyg i ardaloedd eraill sydd â chyfraddau tlodi llawer uwch (yn nodedig Cymru,  Gogledd Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr).  Mae hyn yn rhoi awgrym gwerthfawr, sy'n nodedig ar gyfer Sir Benfro, bod costau tai uchel hyd yn oed yn fwy o ffactor risg mewn tlodi na diweithdra.

**Yr Alban:**  Mae'r gwaith mwyaf radical i fynd i'r afael â thlodi plant yn digwydd yma, gyda thaliad i gefnogi plant wedi cael ei gyflwyno'n raddol, £10 yr wythnos i ddechrau (Chwefror 2021) ar gyfer teuluoedd incwm isel â phlentyn o dan 6 oed, a hwnnw'n ymestyn i £25 yr wythnos ar gyfer pob plentyn cymwys hyd at 16 oed (Tachwedd 2022).  Yr amcangyfrifon cychwynnol yw y bydd y taliad hwn, yn 2023-24 (blwyddyn gyflawn gyntaf y broses o gyflwyno'r taliad yn llawn), yn codi 50,000 o blant uwchlaw'r llinell dlodi.[iv]  Mae pwerau'r Alban dros nawdd cymdeithasol wedi ei gwneud yn bosibl cyflwyno taliadau newydd amrywiol i gefnogi teuluoedd, a ffordd wahanol o weinyddu Credyd Cynhwysol, sy'n galluogi pobl i gael taliadau bob pythefnos yn hytrach nag yn fisol, a threfnu bod yr elfen tai'n cael ei thalu'n uniongyrchol i'r landlord.  Mae'r mesurau hyn yn gwneud syrthio i ddyled yn llai tebygol.

**Lloegr:** Mae amrywiadau rhwng rhanbarthau Lloegr yn golygu y ceir cyfraddau tlodi o 19% yn Ne Orllewin a Dwyrain Lloegr, a 26% yn y Gogledd Ddwyrain, sydd wedi goddiweddyd Llundain a oedd wedi bod ar frig y tablau tlodi am 20 mlynedd (yn bennaf oherwydd costau tai).  Yn ardaloedd tlotaf Lloegr (gan gynnwys Swydd Efrog a Glannau Humber; Gorllewin Canolbarth Lloegr), mae pobl yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi rhent ond maent fel arfer mewn tlodi hyd yn oed cyn ystyried costau tai, gan awgrymu bod incwm isel (diweithdra uchel, anweithgarwch economaidd a thlodi mewn gwaith) yn sbardun mwy sylweddol na rhenti uchel lle mae tlodi yn y cwestiwn.  Yn y rhanbarthau yn Lloegr sydd â'r cyfraddau tlodi isaf mae cyfran uwch o oedolion o oedran gweithio mewn gwaith, gyda'r rhai sydd mewn gwaith yn tueddu i fod â swyddi rheoli a phroffesiynol sydd â chyflogau uwch.

**Cymru:** Mae lefel uchel o dlodi mewn gwaith yn cyfrannu at y ffaith mai Cymru sydd â'r gyfradd tlodi uchaf o blith y pedair gwlad yn ystod y cyfnod adrodd hwn (24%).  Mae gan bron i draean y rhai sydd mewn gwaith swyddi â chyflogau isel mewn amaethyddiaeth, rolau clerigol, cynhyrchu a gwerthu a chynhyrchu gwasanaethau, gwerthu a gwasanaethau, rolau amaethyddol a chlerigol (32% o'r rhai mewn gwaith) a cheir cyfran gymharol uchel o oedolion o oedran gweithio nad ydynt mewn gwaith (26% **ar hyn o bryd**, o'i gymharu â'r un faint yng Ngogledd Iwerddon a 21% yn yr Alban a Lloegr)[v] ac o bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol neu fudd-daliadau cyfatebol (21%).

Mae cymharu'r darlun ledled y DU yn amlygu rhybuddion defnyddiol ar gyfer llunio polisïau yn unrhyw le yn y DU i fod yn ymwybodol ohonynt.  Mae angen swyddi da ar bobl gyda chyflog digonol; gall ffyrdd arloesol i'r wladwriaeth ychwanegu at incwm isel ar gyfer y rhai sydd ar gyflogau tlodi neu sy'n methu â gweithio wneud gwahaniaeth enfawr; mae costau tai uchel (yn enwedig yn y sector rhentu preifat) yn sbardun sylweddol ar gyfer tlodi.

**Materion Cyfredol yn y DU sy'n Dwysáu Tlodi**

Er y gall cyfraddau tlodi amrywio ledled y DU, mae'r profiad o dlodi'n tueddu i fod yn debyg. Mae rhai gwahaniaethau nodedig rhwng lleoliadau trefol a gwledig: mae pobl yn cael eu herio'n wahanol gan fynediad at wasanaethau, costau trafnidiaeth ac argaeledd cyfleoedd yn gyffredinol (yn rhai cymdeithasol, diwylliannol, o ran cyflogaeth ac ati) mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth mwy neu lai. Nid yw ffigyrau ar gyfraddau tlodi'n tueddu i ddangos rhyw lawer o newid dros amser ac mae'r profiad o dlodi hefyd yn parhau'n weddol gyson, ond mae rhai ffactorau bywyd yn y DU yn 2023 sy'n cael effeithiau penodol ar bobl incwm isel.

## Pandemig y Coronafeirws

Yn gryno, achosodd y pandemig fwy o salwch a marwolaeth ymhlith pobl ar incwm isel, sydd wedi profi effeithiau economaidd dyfnach hefyd. Colli swyddi mewn sectorau cyflog is fel arlwyo a lletygarwch (y sector yr effeithiwyd arno waethaf); crëwyd rhai, yn bennaf i helpu'n uniongyrchol i ymdrin ag effeithiau'r pandemig, ond roedd y rhain yn y sector gweinyddiaeth gyhoeddus, ac nid dyma ble y byddai'r rhai a oedd yn colli eu swyddi mewn sectorau cyflog is yn dod o hyd i waith newydd.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn adrodd bod cyflogaeth, rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2021, yn dal i fod 11% yn is na'r lefelau cyn y pandemig yn y sector llety a bwyd a 9% yn is yn y sector gweithgynhyrchu.[vi]

Erbyn hyn mae lefelau uchel o swyddi gwag a diweithdra isel yn gyffredinol, sy'n rhannol oherwydd bod cymaint o bobl yn economaidd anweithgar (ddim yn gweithio nac yn chwilio am waith; yn bennaf oherwydd afiechyd). Adroddodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ym mis Gorffennaf 22 fod nifer y bobl â Covid hir wedi bod yn cynyddu'n gyson, gan gyrraedd bron i 2 filiwn erbyn 22 Mehefin, a bod "dioddefwyr yn fwy tebygol o fod â chyflwr iechyd a oedd yn bodoli eisoes, o fod yn fenywod a bod yn ganol oed ... a hefyd yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tai cymdeithasol, o fod wedi bod yn hawlio budd-daliadau cyn y pandemig, ac o bosibl o fod mewn tlodi".

Mae data sy'n nodi **gostyngiad** yn y gyfradd tlodi yn ystod cyfnod y pandemig yn syml yn dangos yr hyn sy'n digwydd pan y, "Gwnaeth incwm cyfartalog gostyngol achosi i'r llinell tlodi cymharol ostwng".[vii] Mae'r canolrif yn gostwng, mae 60% o'r canolrif yn gostwng, mae nifer y bobl islaw'r llinell dlodi'n llai. *Nid yw hyn yn dangos cynnydd mewn safonau byw.*

Mae'r pwynt hwn hefyd yn ymwneud â defnyddio incwm canolrif 2011 fel mesur o dlodi absoliwt: gall tlodi cymharol newid bob blwyddyn yn unol ag incwm. Yn yr achos uchod, gostyngodd incwm cyfartalog yn ystod y pandemig, felly gostyngodd y trothwy tlodi cymharol hefyd. Fodd bynnag, mae'r mesur tlodi absoliwt yn dal i fod yn 60% o'r incwm canolrifol yn 2011 (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant).

## Yr Argyfwng Costau Byw

Efallai fod ymwybyddiaeth o dlodi'n uwch yn awr nag ar unrhyw adeg yn ystod yr ugain mlynedd ddiwethaf, oherwydd bod nifer cynyddol o bobl yn methu â fforddio costau byw sylfaenol. (Gellid dadlau bod hyn yn tynnu oddi wrth gyflwr pobl nad ydynt erioed wedi gwybod unrhyw beth arall.) Mae chwyddiant yn gyffredinol yn broblem, gan gael ei ysgogi gan alw cynyddol am nwyddau a deunyddiau yn y cyfnod o dwf wedi'r pandemig; roedd cyfradd chwyddiant flynyddol y DU yn fwy nag 11% ym mis Hydref 2022, y lefel uchaf am 41 mlynedd.[viii] Ar wahân i chwyddiant cyffredinol, prif ysgogwyr yr argyfwng fel y'i gelwir yw cost gynyddol ynni a bwyd.

Arweiniodd ymosodiad Rwsia ar Wcráin at gynnydd enfawr ym mhris nwy cyfanwerth, gan gynyddu biliau nwy domestig 129% a thrydan domestig 67% rhwng mis Ionawr 2022 a mis

Ionawr 2023. Mae'n anochel bod costau ynni uwch yn achosi cynnydd ym mhrisiau nwyddau yr effeithir ar y broses o'u cynhyrchu a'u dosbarthu. Arweiniodd y gwrthdaro hefyd at gynnydd mewn prisiau ar gyfer nwyddau penodol y mae'r ddwy wlad yn eu hallforio mewn symiau mawr, gan gynnwys gwenith, cynhyrchion amaethyddol a rhai metelau.

Ar gyfartaledd, fe ychwanegodd yr ymadawiad â'r UE £210 at filiau bwyd aelwydydd dros y ddwy flynedd hyd at ddiwedd 2021, oherwydd *Rhwystrau Nad Ydynt yn Dariffau* i fasnach rydd[ix].

- Mae chwyddiant prisiau ynni wedi arafu dros y 3-6 mis diwethaf; cododd prisiau ar gyfradd arafach o 8.1% ym mis Mai o'i gymharu â 10.5% ym mis Ebrill
- Mae chwyddiant prisiau ynni yn uwch yn y DU o'i gymharu â gweddill y byd yn bennaf oherwydd bod oedi hirach rhwng newidiadau mewn prisiau cyfanwerthol yn arwain at newidiadau ym mhrisiau defnyddwyr
- "Ni fydd effaith y gostyngiad diweddar mewn prisiau nwy cyfanwerth yn treiddio i brisiau cyfleustodau tan fis Gorffennaf 2023, yn dilyn y diweddariad nesaf i gap prisiau Ofgem." (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2023)
- Mae chwyddiant prisiau bwyd hefyd yn arafu o'i gymharu â 2022, er ei fod yn dal i fod yn uchel ar 18.4%

**<u>Nawdd Cymdeithasol: Problemau Systemig</u>**

Nid yw'r "rhwyd ddiogelwch" a gynigir gan nawdd cymdeithasol yn y DU yn cadw pobl allan o dlodi. Mae'r problemau gyda'r system bresennol yn cynnwys:

- Ac eithrio i bensiynwyr, nid yw cyfraddau budd-daliadau safonol yn gyffredinol yn cadw derbynwyr uwchlaw'r llinell dlodi. Mae'r cyfraddau'n arbennig o isel i bobl iau (y rhai o dan 35 oed, ac yn fwy byth felly i'r rhai dan 25 oed).
- Mae gan Gredyd Cynhwysol (CC) lawer o nodweddion problemus:
    - 5 wythnos ar ddechrau hawliad pan nad oes unrhyw gymhwystra i gael arian yn bodoli;
    - cylch talu misol nad yw'n gweithio gyda phatrymau gwariant aelwydydd incwm isel sy'n tueddu i wario ychydig ac yn aml;
    - taliad i un aelod o gwpl a allai fod yn ymosodol yn ariannol;
    - talu'n uniongyrchol i denantiaid yn hytrach na landlord.

**Er gwaethaf y codiad o £20 yr wythnos i Gredyd Cynhwysol yn ystod y pandemig, roedd 46% o deuluoedd a oedd yn Credyd Cynhwysol islaw'r llinell dlodi.**

Mae hawlwyr Credyd Cynhwysol yn cael eu hannog i fynd i ddyled trwy "flaendaliadau", ond gan nad yw Credyd Cynhwysol yn aml yn ddigon i dalu costau byw hanfodol, mae hyn yn creu dyled anfforddiadwy (gweler isod).

Mae'r Lwfans Tai Lleol - swm y cymorth a roddir tuag at gostau tai - yn llawer is na chost nodweddiadol rhenti'r sector preifat. Rhwng mis Mai a mis Rhagfyr '21, canfuwyd fod y Lwfans Tai Lleol yn ddigon i dalu'r rhent a hysbysebwyd ar gyfer llai na 4% o'r cartrefi rhent preifat ar draws 10 Awdurdod Lleol yng Nghymru, ac yn Sir Benfro nid oedd unrhyw unedau eiddo a hysbysebwyd â rhent a oedd yn cyfateb i'r Lwfans Tai Lleol neu a oedd yn is na hynny ar gael heb amodau a fyddai'n gwahardd tenant incwm isel[x]. Yn Sir Benfro mae'r bwlch rhwng y Lwfans Tai Lleol a rhent a hysbysebir yn arbennig o uchel ar gyfer llety a rennir, sef y cyfan y mae oedolyn heb blentyn (neu riant sy'n lletya dros dro) o dan 35 oed yn gymwys i'w gael.

**Effaith Didyniadau Credyd Cynhwysol**

*"Cymerwch gwpl â thri o blant y mae eu taliad credyd cynhwysol, mewn egwyddor, yn £46.11 y dydd. Fodd bynnag, pan fydd eu taliadau'n glanio dim ond £35 sydd ganddynt, oherwydd bod tua chwarter eu budd-dal wedi cael ei ddidynnu i ad-dalu'r benthyciad y bu'n rhaid iddynt ei gymryd ar adeg ymuno â chredyd cynhwysol i dalu costau yn ystod y pum wythnos y gwrthodwyd budd-dal iddynt. Ac mae 5% ychwanegol wedi cael ei ddidynnu fel ôl-daliad i'w cwmni cyfleustodau ... gellir didynnu arian i ad-dalu blaendaliadau neu fenthyciadau mewn argyfwng, a hyd yn oed ar ran trydydd partïon ar gyfer taliadau rhent, cyfleustodau a thâl gwasanaeth.*

*"Gan bod nwy a thrydan yn debygol o gostio o leiaf £7... a chyda chyfraniad treth gyngor i'w dalu ar ben hynny, maen nhw'n canfod mai dim ond £25.80 y dydd sydd ganddynt ar ôl, neu £5.16 y pen, i dalu am fwyd a'r holl hanfodion eraill."*

Gordon Brown, 14.12.22[xi]

**Roedd Paul Johnson, Cyfarwyddwr y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, yn bresennol mewn sesiwn briffio i swyddfeydd Cyngor ar Bopeth lleol ym mis Mai 2023, ac fe nododd fod cyfrifiadau'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi canfod na fydd lefelau budd-daliadau yn cyrraedd y lefelau yr oeddent arnynt ar ddechrau 2020 tan fis Ebrill 2025, gan dybio y ceir parhad yn y broses fynegeio gyfredol lle mae budd-daliadau'n gysylltiedig â chwyddiant fel yr oedd yn y mis Medi blaenorol. Gellir dod o hyd i'r ffynhonnell wreiddiol yma**

## Tlodi yng Nghymru

Mae data ar dueddiadau tlodi bob amser yn ôl-weithredol; mae'r crynodeb canlynol o adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru o fis Medi 2022[xii], ond mae'r holl ddata gwreiddiol yn dyddio o 2021 neu cyn hynny. Yng Nghymru:

- Mae tua 57% o bobl mewn tlodi'n bobl o oedran gweithio.
- Plant sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi ond nhw yw'r grŵp lleiaf o bobl mewn tlodi o ran cyfanswm niferoedd. Mae'r rhan fwyaf o blant mewn tlodi mewn aelwydydd sy'n gweithio, nid rhai heb waith.
- Rydych yn fwy tebygol o fod yn dlawd os ydych yn ddi-waith, ond nid yw swydd bob amser yn atal tlodi. Mae tlodi mewn gwaith wedi gwaethygu dros yr 20 mlynedd ddiwethaf.
- Ers y 1990au, mae ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi pensiynwyr wedi bod yn llwyddiannus, a phensiynwyr bellach yw'r math o aelwyd sydd leiaf tebygol o fod mewn tlodi. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, mae cyfran y pensiynwyr sydd mewn tlodi wedi dechrau cynyddu eto, yn bennaf oherwydd costau byw uchel.
- Mae 44% o aelwydydd rhiant sengl mewn tlodi.
- Mae cyfraddau tlodi'n gyson yn uwch ymhlith pobl ifanc, y rhai ag anableddau neu afiechydon cronig, rhieni sengl, rhentwyr cymdeithasol a phreifat, menywod, a Phobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. (Mae Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn rhoi cyfrif am 2.3% yn unig o'r rhai sydd mewn tlodi, oherwydd eu niferoedd bychain ym mhoblogaeth Cymru.)

Mae 'cipolwg' diweddaraf Sefydliad Bevan o dlodi wedi datgelu bod mwy nag un ymhob wyth o'r aelwydydd yng Nghymru yn cael trafferth fforddio eitemau pob dydd naill ai weithiau neu'n aml. Ar y cyfan, nid oes gan 45 y cant o aelwydydd Cymru byth ddigon o arian ar gyfer unrhyw beth heblaw'r pethau sylfaenol. Mae'r ffigyrau yma ar gyfer Cymru gyfan yn ddigon gwael, ond mae'r pwysau ar aelwydydd mewn cymunedau gwledig hyd yn oed yn waeth. Pam? Oherwydd bod ardaloedd gwledig yn wynebu gwasgfa driphlyg o ganlyniad i gostau uchel, incwm isel a chymorth cyfyngedig i aelwydydd dan bwysau. Mae incwm aelwydydd mewn ardaloedd gwledig yn cael trafferth aros gyfuwch â chostau. Ar gyfer cyflogeion, roedd enillion canolrifol ym mis Mai 2022 ar eu hisaf yng Nghymru yn Sir Benfro, Ceredigion, Conwy, Gwynedd a Phowys. Mae gweithiwr nodweddiadol yn Sir Benfro yn cael £346 y mis yn llai na gweithiwr nodweddiadol yn y DU, gwahaniaeth sy'n ddigon i greu'r angen am godi'r rhesel.

**Tlodi yn Sir Benfro**

Yn ôl Ymddiriedolaeth Trussell, rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023, cafodd bron i 3 miliwn o barseli bwyd brys eu dosbarthu gan fanciau bwyd, cynnydd o 37% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd; gyda mwy na miliwn o'r parseli hyn wedi'u dosbarthu ar gyfer plant. Maen nhw'n dweud hefyd mai 760,000 oedd nifer y bobl a ddefnyddiodd fanc bwyd am y tro cyntaf rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023.

Mewn ymateb lleol uniongyrchol i'r ffaith bod Sir Benfro yn anffodus yn dilyn y duedd genedlaethol o fwy o dlodi bwyd, yn 2021 sefydlwyd y Rhwydwaith Cymorth Tlodi Bwyd sy'n rhwydwaith sy'n tyfu ac yntau'n cynnwys sefydliadau o bob rhan o'r sir sy'n cynnig cymorth bwyd i bobl yn Sir Benfro. Yn ystod 2022-23 dyfarnwyd cyllid i CSP gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gefnogi'r rhai mewn tlodi bwyd. O ystyried yr argyfwng costau byw ar y pryd ychwanegodd CSP fwy o gyllid at hyn o'i ddyraniad blynyddol o'r Gronfa Cymorth Dewisol. Sefydlwyd y Grant Cymorth Tlodi Bwyd a thrwy'r cyllid hwn rhoddwyd cymorth i ystod o fudiadau'r sector gwirfoddol i brynu bwyd, creu prydau bwyd a chynulliadau cymdeithasol (clybiau cinio, cawl yn ystod yr wythnos, te cynnar) ar gyfer cymunedau y tu allan i oriau gweithredu arferol er mwyn cyrraedd y rhai mwyaf anghenus.

***Cefnogwyd cyfanswm o 15,121 o bobl a derbyniwyd 18,876 o brydau rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023.***

Dosbarthodd PATCH, y banc bwyd mwyaf yn Sir Benfro, 165,000 o brydau bwyd i unigolion a theuluoedd yn ystod 2022-23, a oedd yn **gynnydd o 34% yn y galw o'i gymharu â 2021-22**. Profodd Banc Bwyd Sir Benfro gynnydd o 1% yn y galw rhwng 2021-22 a 22-23 ac fe ddosbarthon nhw 86,429 o brydau bwyd. Yn olaf, darparodd y Peninsula Food Pod sy'n canolbwyntio ar Abergwaun a Thyddewi 51,976 o brydau bwyd i bobl yn ystod 2022-23.

Mae banciau bwyd yn gweld niferoedd yr hunan-atgyfeiriadau'n cynyddu lle mae teuluoedd wedi dod wyneb yn wyneb â rhwystr a bod angen cymorth ychwanegol arnynt y tu hwnt i unrhyw ymyrraeth allanol gan asiantaethau. Mae pob un wedi nodi gostyngiad mewn rhoddion, yn ogystal â bod archfarchnadoedd o dan bwysau i gynhyrchu llai o wastraff ac felly'n rheoli archebion yn fwy effeithiol, felly mae'r llwybrau cymorth traddodiadol hynny bellach yn cau neu'n lleihau'n sylweddol.

**<u>Tlodi plant</u>**

Roedd yr oedi arferol gyda data'n golygu, ar adeg ysgrifennu, bod yr Asesiad Llesiant yn adlewyrchu data hyd at 2018/2019 gan nodi mai Sir Benfro oedd â'r gyfradd tlodi plant uchaf yng Nghymru, sef tua 31%. Mae data mwy diweddar (2020/2021) yn rhoi Sir Benfro'n gyfartal â Rhondda Cynon Taf, Ynys Môn a Chonwy ar 36% a'r tu ôl i Gaerdydd a Chasnewydd ar 37%.[xiii]

Mae'r ystadegyn hwn yn adlewyrchu cyfran yr holl blant yn y sir sydd ar hyn o bryd yn byw mewn aelwydydd ag incwm islaw 60% o ganolrif y DU, ar ôl costau tai. Nid yw'r mesur hwn, fel a eglurwyd uchod, yn dweud unrhyw beth wrthym am safon byw, ond gallwn dybio'n ddiogel bod unrhyw aelwyd â phlant sy'n dibynnu ar fudd-daliadau a heb ei heithrio o'r cap yn byw mewn sefyllfa enbyd, am y rhesymau canlynol:

- Mae'r cap ar fudd-daliadau'n berthnasol i bob aelwyd ni waeth beth fo nifer y plant, ac mae 85% o'r aelwydydd y mae'n berthnasol iddynt yn cynnwys plant.
- Cafodd y cap cyn mis Ebrill 2023 ei osod a'i rewi ym mis Tachwedd 2016, gydag aelwydydd sydd wedi'u capio yn peidio â chael unrhyw fudd o ganlyniad i uwchraddio nawdd cymdeithasol i roi cyfrif am chwyddiant.
- Mae bron pob aelwyd wedi'i chapio sydd â phlant mewn tlodi dwfn (50% o'r canolrif, neu is)

Darperir data etholaethol ar dlodi plant gan Dŷ'r Cyffredin [yma](), er bod hyn yn golygu bod y data sy'n berthnasol i Sir Benfro wedi'i rannu rhwng Preseli a Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro.


Yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro:


- Yn 2021/22, 22.7% oedd y gyfradd tlodi plant cymharol o'i gymharu â 22.1% ar gyfer Cymru ac 20.1% ar gyfer y DU
- Yn 2021/22, 15.7% oedd y gyfradd tlodi plant absoliwt o'i gymharu ag 14.8% ar gyfer Cymru a 15.3% ar gyfer y DU
- Mae offeryn Tŷ'r Cyffredin hefyd yn darparu data ar gyfer ardaloedd bychain o fewn pob etholaeth. Ar gyfer Cil-maen y cofnodwyd y gyfradd uchaf gyda 35.2% o blant mewn tlodi cymharol yn 2021/22

Ym Mhreseli Penfro:

- Yn 2021/22, 24.1% oedd y gyfradd tlodi plant cymharol o'i gymharu â 22.1% ar gyfer Cymru ac 20.1% ar gyfer y DU
- Yn 2021/22, 17.2% oedd y gyfradd tlodi plant absoliwt o'i gymharu ag 14.8% ar gyfer Cymru a 15.3% ar gyfer y DU
- Ar gyfer Gogledd Ddwyrain Sir Benfro y cofnodwyd y gyfradd uchaf gyda 34.1% o blant mewn tlodi cymharol yn 2021/22

**Map Rhyngweithiol y Cynghrair Dileu Tlodi Plant (data 2022)[xiv]**




O ystyried y gydberthynas â data diweithdra, isod, a thebygrwydd cyffredinol y sefyllfa ledled Cymru, mae rhai ysgogwyr credadwy ar gyfer tlodi plant lleol yn cynnwys:

- Diffyg gofal plant fforddiadwy/sydd ar gael: Mae Arolwg o Ddigonolrwydd Gofal Plant Sir Benfro yn dangos bod hyn yn debygol o fod yn rhwystr i gyflogaeth rhieni.
- Diffyg cludiant fforddiadwy/sydd ar gael: Mae anawsterau o ran cael mynediad at ofal plant a chyflogaeth o fewn yr amseroedd angenrheidiol yn gwaethygu'r her a wynebir gan rieni mewn perthynas â gwaith.
- Diffyg cyflogaeth â chyflog da sy'n gydnaws â bywyd teuluol (yn enwedig cyflogaeth ran-amser).
- Costau uchel tai â dwy ystafell wely neu fwy, sy'n effeithio ar y rhai sydd â phlant.

**Y Dreth Ystafell Wely a'r Cap ar Fudd-daliadau**

Mae'r ddau bolisi hyn ill dau wedi cael eu beirniadu gan y Cenhedloedd Unedig am eu heffeithiau, gan leihau incwm rhai o aelwydydd tlotaf y DU yn ddifrifol a chael effeithiau arbennig o llym ar aelwydydd â phlant.

Mae'r enghreifftiau isod ar gyfer rhiant sengl o oedran gweithio gyda chyfansoddiadau aelwyd gwahanol o ran nifer, oedran a rhywiau'r plant.  Ym mhob achos mae'r enghraifft ar gyfer **cartref â 3 ystafell wely yn Sir Benfro**.  Defnyddiwyd ffigwr rhent cyngor cywir ar gyfer 2022-23 ac ymchwiliwyd i'r ffigwr rhent preifat gan yr Adran Dai yn 2022.

Mae **Treth Ystafell Wely** (TYW ar y tabl isod) yn berthnasol os oes gan gartref fwy o ystafelloedd gwely nag sy'n angenrheidiol yn ôl y polisi, o ystyried ei fod yn nodi y dylai dau blentyn o'r naill ryw neu'r llall rannu ystafell nes eu bod yn 10 oed ac y dylai dau o'r un rhyw rannu hyd at 16 oed.  Gellir ystyried bod cartref â 3 ystafell wely yn ormodol neu beidio, gan ddibynnu ar oedrannau/rhywiau'r un nifer o blant, gan gael effaith annisgwyl ar gyllid y cartref.

Mae'r **cap ar fudd-daliadau (**BC) yn sicrhau nad oes unrhyw aelwyd y tu allan i Lundain yn cael mwy na £20,000 mewn budd-daliadau (cyfradd cyn mis Ebrill '23).  Po fwyaf o blant sydd yn y teulu, po fwyaf yw'r effaith.


Ym mhob enghraifft isod, mae Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cwrdd â'r rhwymedigaeth lawn, ac eithrio pan fo'r rhiant yn gweithio.  Mae Incwm o Fudd-daliadau'n golygu Credyd Cynhwysol a Budd-dal Plant.  Mae'r ffigurau ar gyfer 2022-23.


| | **Cyfansoddiad y Teulu** | **Rhent: 3 ystafell wely** | **Help gyda rhent** | **Incwm o fudd-daliadau** | **Cyflogau, Isafswm Cyflog** | **Incwm ar ôl rhent a TG** | **Incwm y pen ar ôl costau tai** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TYW | Tenant cyngor, 2 blentyn, yr un rhyw, o dan 16 oed | £114.91 | £98.96 | £335.72 | £0.00 | £220.81 | £73.60 |
| TYW | Tenant preifat, 1 bachgen, 1 ferch, o dan 10 oed | £191.49 | £98.96 | £335.72 | £0.00 | £144.23 | £48.08 |
| | Tenant cyngor, bachgen, 8 a merch, 12 | £114.91 | £114.91 | £351.80 | £0.00 | £236.89 | £78.96 |
| | Tenant preifat, bachgen, 8 a merch, 12 | £191.49 | £120.82 | £351.80 | £0.00 | £160.31 | £53.44 |
| CaF | Tenant cyngor gyda thri o blant o dan 10 oed | £114.91 | £114.91 | £384.62 | £0.00 | £269.71 | £67.43 |
| CaF | Tenant preifat gyda thri o blant o dan 10 oed | £191.49 | £120.82 | £384.62 | £0.00 | £193.13 | £48.28 |
| | | *Yma mae'r cap ar fudd-daliadau yn cael gwared ar £39 yr wythnos.  Mae gweithio 16 awr yn codi'r cap, ond nid yw'n cynyddu budd-daliadau. Collir GDG o £15 a CC o £1.86.  Ceir elw net o £135, cyn costau gofal plant a chludiant.* | | | | | |
| CaF | Tenant cyngor gyda 2 fachgen, 2 ferch, dan 16 oed | £114.91 | £114.91 | £384.62 | £0.00 | £269.71 | £53.94 |
| CaF | Tenant preifat gyda 2 fachgen, 2 ferch, o dan 16 oed | £191.49 | £114.91 | £384.62 | £0.00 | £193.13 | £38.63 |
| | Tenant cyngor gyda 2 fachgen, 2 ferch, dan 16 oed, yn gweithio 16awr yr wythnos | £114.91 | £114.91 | £493.58 | £152.00 | £515.53 | £103.11 |
| | Tenant preifat gyda 2 fachgen, 2 ferch, dan 16 oed, yn gweithio 16awr yr wythnos | £191.49 | £120.82 | £493.58 | £152.00 | £438.95 | £87.79 |

**Diweithdra:** Ar gyfer y cyfnod diwethaf yr oedd data ar gael (2018), Sir Benfro oedd â'r gyfradd uchaf yng Nghymru o blant mewn cartrefi heb waith (20%), sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru (13%)[xv] Yn wir, ar gyfer aelwydydd heb waith yn gyffredinol, Sir Benfro oedd â’r gyfradd uchaf yng Nghymru (22%; cyfartaledd Cymru 17%). Mae data mwy diweddar (2022) yn nodi problemau parhaus gyda diweithdra yn y sir, gyda'r gyfradd uchaf o bobl yn hawlio budd-daliadau diweithdra dros 6 mis, a'r 3[edd] uchaf ar gyfer hawlwyr am gyfnodau o fwy na 12, 18 a 24 mis.

**Cymwysterau:** Mae data dangosyddion mynegai amddifadedd lluosog diwethaf Cymru[xvi] yn dangos tuedd newidiol yn Sir Benfro, gyda phob grŵp oedran yn cynnwys canran is o oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ar wahân i’r rhai 16-24 oed. Gall hyn fod oherwydd bod pobl yn ennill llai o gymwysterau, neu am fod y rhai sydd â chymwysterau yn gadael yr ardal. Mae gan bobl leol bryder bod pobl ifanc yn symud i ardaloedd eraill, ar gyfer tai a swyddi.


**Dyled Tai a Digartrefedd:** Mae graffiau o Offeryn Data Tlodi Archwilio Cymru[xvii] yn dangos y cynnydd yn nifer yr aelwydydd sy'n cronni ôl-ddyledion gyda chostau tai:




Mae nifer yr aelwydydd sy'n ceisio cymorth gyda digartrefedd wedi cynyddu’n flynyddol ac mae'r Adran Dai’n nodi cynnydd o ryw 46% mewn ceisiadau am dai cyngor ers 2018. Y rheswm unigol mwyaf arwyddocaol dros ddigartrefedd yw **colli tenantiaeth,** am resymau heblaw ôl-ddyledion rhent, a nodwyd mewn 200 o achosion yn 2019-20, 258 yn 2021-22 ac mae'r tîm yn rhagweld yr effeithir ar 492 o aelwydydd yn 2022-23, sy’n gynnydd syfrdanol.

Yn gyfatebol, mae Archwilio Cymru’n dangos bod llwyddiant o ran atal digartrefedd yn gostwng:




***Yn ôl cofnodion canolog CSP, rhwng mis Ebrill 2020 a mis Ebrill 2023, mae ôl-ddyledion rhent tai cymdeithasol yn Sir Benfro wedi codi dros £1 filiwn.***

*Mae'r cynnydd hwn o 94.6% dros gyfnod o dair blynedd bellach yn golygu bod dros ddwy filiwn o bunnoedd o ddyled rhent TC yn Sir Benfro o ran y sefyllfa ym mis Mehefin 2023.*

# Adran 4:
# Realiti tlodi yn Sir Benfro

Trechu Tlodi: Ein Strategaeth 2023

# Adran 4: Realiti Tlodi yn Sir Benfro

Mae gan bobl sy'n byw gyda'r anawsterau y mae gan y gwasanaethau cyhoeddus orchwyl i'w cefnogi fewnwelediadau a all fod yn arfau pwerus ar gyfer goleuo datblygiad polisi ac ymyriadau ymarferol. Mae llwyddiant yn llawer mwy tebygol pan fydd ein gwaith yn seiliedig ar anghenion ac awgrymiadau'r 'arbenigwyr trwy brofiad'.

### Ymchwil ansoddol gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Yn 2022, gyda chyllid gan Lywodraeth y DU (Cronfa Adfywio Cymunedol y DU) a'r awdurdod lleol, cynhaliodd Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) ymchwil i gasglu gwybodaeth am brofiadau personol pobl o galedi ariannol, eu rhwystrau i sicrhau cyflogaeth a/neu gynyddu eu hincwm, a'u syniadau ar gyfer gwella pethau.

Mae'r adroddiad llawn yn cynnwys ehangder amhrisiadwy o wybodaeth am fywydau, barn a phryderon pobl. Isod, mae'r materion mwyaf cyffredin a godwyd yn yr ymchwil wedi cael eu hadnabod a'u tynnu allan. Felly, nid yw'r materion a restrir yma'n rhestr gynhwysfawr o broblemau a drafodwyd, ond maent yn broblemau nodweddiadol a nodwyd gan niferoedd o gyfranogwyr. Mae'r materion ar wahân a nodwyd wrth gwrs yn gydgysylltiedig, gan waethygu'r effeithiau: mae un sefyllfa ingol neu gostus yn gwaethygu un arall, sydd yn ei dro'n dwyn goblygiadau i un arall, ac yn y blaen.

## <u>Costau Byw Hanfodol – Brwydr</u>

### Bwyd

- Mae siopa bwyd yn cael ei leihau i "hanfodion" a'r "pethau sylfaenol", gan hepgor cig a danteithion. (Roedd y costau wedi cynyddu o £60 i £100 am yr un eitemau mewn un achos, £50 i £70 mewn un arall.)
- Nid oes modd dod i ben â chostau dietau arbennig (prin bod y grant seliag o £54/chwarter yn cael unrhyw effaith).
- Mae plant yn aml yn cael carbohydradau rhad sy'n eu llenwi, fel tost, brechdanau a grawnfwyd brecwast gyda'r nos, gan bod eu rhieni'n gwybod eu bod wedi cael pryd twym yn yr ysgol.

***'Digon i godi cywilydd a gwarthus'***

### Tai

- Mae tai mewn cyflwr gwael (e.e. lleithder, oerni, wedi'u hinswleiddio'n wael) ac yn gostus i'w gwresogi.
- Mae gwresogi anfforddiadwy'n golygu problemau gydag anwedd, llwydni a dirywiad pellach.
- Mae'r tai'n anfforddiadwy a/neu nid ydynt ar gael. Mae pobl yn gadael neu'n ystyried gadael Sir Benfro (yn enwedig cymunedau arfordirol) i gael rhenti/cartrefi sy'n rhatach ac sydd ar gael.
- Mae'r bwlch rhwng y Lwfans Tai Lleol a rhenti'n arbennig o fawr mewn ardaloedd 'dymunol'. Er enghraifft, yn Llandudoch mae'n £320 y mis.
- Mae perchnogion tai'n poeni na fydd modd dod i ben â morgeisi pan gaiff y cyfraddau cyfredol eu hailnegodi.
- Mae treth ystafell wely'n berthnasol hyd yn oed i ystafell wely a ddefnyddir ar gyfer plant sy'n ymweld. Yn aml, ni all pobl yr effeithir arnynt symud (i gartref llai) o fewn yr un gymuned, felly mae ôl-ddyledion rhent yn gwaethygu.

- Mae'r newid i dalu elfen tai budd-daliadau i hawlwyr, yn hytrach nag yn uniongyrchol i'w landlord, wedi creu ôl-ddyledion. (Mae cynnal disgyblaeth dros gyllideb fach yn anodd iawn.)

**Ynni**

- Mae costau tanwydd yn rhan fwyfwy sylweddol o wariant aelwydydd.
- Mae nwy o'r prif gyflenwad wedi dyblu mewn cost.
- Mae'r sefyllfa hyd yn oed yn waeth i'r rhai nad ydynt ar y grid nwy, gydag olew ac yn enwedig trydan mor gostus.
- Mae unigolion yn dweud, er enghraifft, bod defnydd o drydan yn cynyddu bedair gwaith drosodd yn ystod misoedd y gaeaf; bod costau trydan yn treblu (sy'n cyfateb i ¾ o'u pensiwn).
- Croesewir taliadau cymorth tanwydd ond maent yn ddryslyd.
- Mae pobl yn rheoli eu mesuryddion ynni'n dra manwl - gan wybod sawl diwrnod y gallant eu fforddio a chyfyngu ar eu defnydd o wres.

***"Fyddwn ni ddim yn rhoi'r gwres ymlaen y gaeaf hwn, gan bod cost dŵr poeth yn unig wedi mynd o £3.50 i £8.50 y dydd".***

***"Rwy'n talu pob bil fel y daw i mewn, wedyn rwy'n gwybod faint sydd ar ôl ar gyfer bwyd"***

**Ysgol**

- Mae esgidiau ysgol plant ifancach yn gwisgo'n gyflym, ac nid yw rhai ail law ar gael yn rhwydd.
- Mae gwisg ysgol yn gost anodd. Pan fo ysgolion yn mynnu bod gan ddisgyblion fathodynnau brodiog o'i gymharu ag eitemau plaen gall hynny ychwanegu £10+ yr eitem.
- Mae teithiau a phethau nad ydynt yn hanfodol, fel lluniau ysgol, yn rhoi straen go iawn ar rai teuluoedd.

***"Mae yna wastad rywbeth, yr wythnos hon mae arian lluniau ysgol i fod i gael ei anfon i mewn ac rwy'n meddwl 'Mawredd, sut alla i dalu".***

**Gofal Plant a darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar**

- Mae Gofal Plant/ Meithrin yn hollol anfforddiadwy i rai teuluoedd, yn enwedig mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg (sy'n cefnogi plant dwy oed).
- Mae rhai darparwyr yn codi tâl am wythnos gyfan i gadw lle, ni waeth faint o weithiau mae'r plentyn yn mynychu. Os caniateir hynny, dim ond unwaith neu ddwywaith yr wythnos y mae rhai rhieni'n anfon eu plant.
- Mae'r diffyg darpariaeth Dechrau'n Deg yng nghanolbarth a gogledd y sir yn gwneud i bobl deimlo y gwahaniaethir yn eu herbyn. Mae'r ddarpariaeth yn Noc Penfro ac Aberteifi er enghraifft yn "teimlo'n annheg".
- O dair oed, ceir cymorth gan Lywodraeth Cymru, dim ond i rieni **sy'n gweithio**.
- I gael mynediad at yr elfen gofal plant o Gredyd Treth Plant, rhaid i'r ddau riant fod yn gweithio 16 awr neu fwy (ni waeth faint mae un yn gweithio, e.e. 60 awr).

***"Mae bod yn waeth eich byd ar ôl gofal plant yn rhwystr gwirioneddol i waith. Hyd yn oed mewn swyddi â chyflog gwell, mae gofal plant yn mynd â chymaint o incwm; gyda theithio ychwanegol i gyrraedd gofal plant nid yw'n "werth chweil."***

**Cludiant**

- Mae cludiant cyhoeddus yn anfforddiadwy i lawer. Nid yw cludiant cymunedol, fel Bws Fflecsi, ar gael ym mhobman.

- Gall gorbryder (sy'n gyffredin ymhlith pobl sy'n cael trafferth â straen bywyd incwm isel) fod yn rhwystr i gludiant cyhoeddus, ac felly i wasanaethau mewn lleoliadau eraill, e.e. oergell gymunedol.
- Mewn ardaloedd gwledig, gydag ychydig neu ddim cludiant cyhoeddus ar gael, mae'n rhaid bod "gan bobl gerbyd".
- I'r rhai sy'n gorfod defnyddio’u cerbyd ar gyfer gwaith (e.e. gofalwyr), ac i gael mynediad at wasanaethau, mae tanwydd yn mynd â thalp mawr o gyllideb yr aelwyd.

## Y Trap Tlodi ar Waith

### Tlodi mewn Gwaith

- Mae rhai sy'n gweithio, ac nad ydynt yn cael cymorth gyda phrydau ysgol, cyfraddau dŵr, y dreth gyngor, neu dariffau cymdeithasol ar gyfer tanwydd, yn teimlo bod ganddynt lai ar ôl na'r rhai ar fudd-daliadau (ac efallai eu bod yn iawn).
- Gall colli'r cymorth uchod, ynghyd â chostau gofal plant a theithio, olygu nad yw cyflogaeth yn gwneud synnwyr ariannol: "mae'r system bron yn gorfodi pobl allan o waith".
- Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cosbi am weithio (yn aml mewn rolau â chyflog isel ond hanfodol).
- Mae'n ymddangos bod diffyg cyfleoedd gyrfa sy'n talu digon i ddianc rhag tlodi.

***"Fydd ein bechgyn ni ddim yn dod yn ôl - beth sydd yma iddyn nhw? Aethon nhw i ffwrdd i'r brifysgol a nawr does dim byd iddyn nhw ddod nôl ato".***

***"Does dim byd yn Sir Benfro i bobl ifanc symud ymlaen mewn bywyd ... Rwy'n teimlo bod mwy o gyfleoedd mewn rhannau eraill o'r DU nag yng Nghymru" (23 oed)***

### Materion gyda Chredyd Cynhwysol (CC) a budd-daliadau eraill

- Mae'n rhaid i rai pobl sy’n cael Credyd Cynhwysol a gymerodd flaendaliad cychwynnol fenthyca mwy yn gyson (gan yr Adran Gwaith a Phensiynau); mae'r rhai sy'n dal i gael Credydau Treth Gwaith a Lwfans Ceisio Gwaith yn ofni'r newid i CC.
- Mae unigolion hunangyflogedig sydd ag incwm sy’n amrywio wedi ymdopi’n iawn gyda thaliadau ychwanegol trwy Gredyd Treth Gwaith (er y gall newidiadau fod yn straen) ond maent yn disgwyl mwy o anhawster gyda Chredyd Cynhwysol.
- Mae teuluoedd mwy’n cael eu cosbi'n arbennig. Mae'r terfyn dau blentyn yn berthnasol ac mae'r cap ar fudd-daliadau’n cyfyngu incwm i £20,000, pa un a oes gan aelwyd 2 o blant neu 3, 4 neu fwy.

**Symleiddio a Siopau Un-Stop**

Mae'n anodd gwybod pa help sydd ar gael. Mae pobl yn sôn am "frwydr" gyson, lafurus neu am wybodaeth.

Mae systemau i bobl ddysgu beth allent fod â hawl iddo a chael mynediad ato i’w gweld yn gymhleth ac yn ddryslyd. Mae pobl yn cael eu dychryn gan luosogrwydd meini prawf a ffurflenni cais.

**Mae pobl yn gofyn am symleiddio gwasanaethau o'r fath, yn debycach i 'siop un stop' i ganolbwyntio ar unigolyn, a'u hamgylchiadau.**

### Straen, Siom ac Iechyd Meddwl Gwael

- Mae problemau iechyd meddwl yn gyffredin, gan gael eu hysgogi a/neu eu gwaethygu gan straen tlodi.

- Mae arosiadau hir iawn am asesiad nad yw'n un brys (yn enwedig Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth ac Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd mewn plant) yn ychwanegu at straen deuluol.
- Nid yw bywyd fel a ragwelwyd, mae'n "ddigalon" i'r rhai sy'n teimlo na allant roi'r bywyd y byddent yn dymuno ei roi i'w plant a'r rhai sydd wedi talu i mewn i'r 'system' nad yw bellach yn eu galluogi i 'ddod i ben â phethau' hyd yn oed.


## Strategaethau Ymdopi

Mae aelwydydd yn mynd heb ...

- Ddillad i rieni
- Atgyweirio/amnewid eitemau'r cartref a nwyddau gwyn
- Ymweliadau â pherthnasau, neu deithiau undydd pellach, oherwydd costau tanwydd.
- Unrhyw beth "braf" neu "drîts", fel cinio mewn caffi
- Diwrnodau allan i'r teulu/gweithgareddau hamdden

| Ar gyfer... | Mae pobl yn troi at... |
|---|---|
| Bwyd neu help gyda biliau a chostau byw | Eu plant sy'n oedolion, eu rhieni, perthnasau eraill, ffrindiau. |
| Help gyda chostau mawr yr aelwyd fel rhewgell-rewgist, peiriannau golchi, biliau milfeddyg, tanwydd | Ffrindiau a pherthnasau |
| Dillad ail-law fforddiadwy | Siopau elusen, dillad ail law, 'Vinted' a Facebook |
| Bwyd | Parseli bwyd Pembrokeshire Action To Combat Hardship (PATCH) neu Fanc Bwyd Sir Benfro |
| Gweithgareddau plant, clybiau, teganau adeg y Nadolig (gliniaduron hefyd yn ystod y cyfnod clo) | Gweithredu dros Blant |

**Isod mae cwmwl geiriau wedi'i gynhyrchu o beth o'r iaith a'r eirfa sy'n gysylltiedig â chaledi, a ddefnyddiwyd gan gyfranogwyr ac a gofnodwyd gan ymchwilwyr i gyfleu'r profiad lleol a phersonol o dlodi yn ddiweddar:**



## Astudiaethau Achos FaCE - Ymgysylltu â’r Gymuned a Theuluoedd

Mae FaCE (Ymgysylltu â’r Gymuned a Theuluoedd) yn brosiect newydd yn Sir Benfro sy’mn amcanu at gynorthwyo ysgolion i dargedu teuluoedd sydd wedi ymddieithrio, trwy weithgareddau dysgu a chyfoethogi strwythuredig sy’n seiliedig ar rifedd. Mae'r astudiaethau achos hyn, sy'n rhan o waith i fonitro'r prosiect, yn amlygu’n arbennig:

1. Effaith negyddol tlodi ar iechyd meddwl pawb yn y cartref, yn enwedig oedolion sy'n mynegi euogrwydd a chywilydd am beidio â gallu darparu mwy i'w plant.
2. Cyfleoedd ar gyfer cyfoethogi cadarnhaol, fel uned deuluol ac i'r plant fel unigolion, sydd wedi lleihau neu sydd ar goll yn llwyr. Mae costau i gael mynediad at hobïau neu ddiwrnodau allan yn rhy ddrud i'r mwyafrif, na allant ond cael budd o weithgareddau am ddim yn unig.
3. Tai: llety o ansawdd gwael neu anaddas, ôl-ddyledion a dyled sy’n pentyrru, anallu i fforddio atgyweiriadau neu gynnal a chadw eiddo i safon ddigonol, tai sy’n teimlo fel lleoliadau anniogel gyda diffyg sefydlogrwydd ac ymdeimlad o 'gartref'.

**Teulu A:** Mae Mr a Mrs A yn byw yn Neyland, gyda 4 mab rhwng 10 a 15 oed. 10 mlynedd yn ôl cafodd dad ddamwain yn y gwaith, a bu llawdriniaethau’n aflwyddiannus wrth geisio cyweirio’r niwed i'w gefn. Ar y pryd, roedd mam yn mynychu'r coleg lleol, roedden nhw'n berchen ar gartref â 3 ystafell wely, yn ad-dalu eu morgais ac yn talu biliau ar amser ac nid fu arnynt erioed angen budd-daliadau. O ganlyniad i’r newid sydyn yn eu ffawd, buan iawn y bu’n rhaid iddynt ofyn am gyngor ariannol, gan gytuno ar drefniant gwirfoddol unigol (IVA) i ad-dalu'r ddyled a gronnwyd ac estyn eu morgais i dymor o 35 mlynedd er mwyn lleihau'r taliad misol. Mae iechyd meddwl mam a dad wedi dirywio dros y 10 mlynedd ddiwethaf ac nid yw iechyd corfforol dad wedi gwella.

**Costau byw:** Mae'r tŷ mewn cyflwr difrifol heb unrhyw arian ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyffredinol. Nid oes hawl i gael cymorth gyda chostau tai ac nid oes ecwiti yn y tŷ oherwydd bod y morgais yr un faint â chyfanswm ei werth. Mae'r diffyg budd-dal tai a'r taliadau IVA yn effeithio'n fawr ar yr aelwyd. Maent yn dibynnu'n rheolaidd ar becynnau bwyd wythnosol gan PATCH.

**Bywyd ar yr aelwyd**: Mae gan y mab hynaf ystafell fechan iawn, mae’r ddau ganol yn rhannu ac mae'r ieuengaf, sydd ag awtistiaeth, yn rhannu ystafell wely gyda'i rieni. Mae bywyd ar yr aelwyd yn aml yn llawn gofidiau yn y tŷ bach hwn, gydag ystafelloedd bach; mae'r bechgyn yn ymladd. Ni allant fynychu unrhyw weithgareddau allgyrsiol oni bai eu bod yn rhad ac am ddim, gyda chludiant am ddim yn cael ei ddarparu. Maent yn chwarae gemau cyfrifiadur ar-lein ac anaml y byddant yn mynd allan o'r cartref. Wrth iddynt brifio, mae'r holl ddillad yn cael eu trosglwyddo o un bachgen i'r nesaf ac ar un achlysur bu'n rhaid i un mab oddef esgidiau wedi torri, i aros tan y diwrnod cyflog.

Mae Mam yn pryderu y bydd ei bechgyn hŷn, sy’n ddisglair iawn, yn methu â chyfranogi mewn sesiynau astudio ychwanegol yn yr ysgol am na allant fynychu oni bai bod cludiant am ddim yn cael ei ddarparu.

Nid ydynt yn mynd cael gwyliau teuluol na diwrnodau allan i'r teulu. Mae'n rhaid rhannu popeth ac maen nhw'n dibynnu ar roddion gan aelodau o'r teulu ehangach. Mae'r ddau riant yn teimlo'n ofnadwy na allant ddarparu ar gyfer eu plant ac mae'r tristwch hwn yn gwaethygu eu hiechyd meddwl gwael.

**Teulu B:** Mam sengl sy'n byw gyda'i chariad mewn llety Cymdeithas Dai ar Ystâd Mount yn Aberdaugleddau. Chwech o blant, rhwng 18 mis a 15 oed.

Yn gynnar yn 2020 symudodd y teulu o'u tŷ tila i gartref newydd â 4 ystafell wely a oedd yn eiddo i Gymdeithas Dai, gyda chynnydd sylweddol yn eu rhent. Ar y pryd roedd hyn yn fforddiadwy iddi fel mam sengl. Pan symudodd ei phartner i mewn, gan ysgogi asesiad o fudd-daliadau deuol ar gyfer yr aelwyd, collodd ei budd-dal tai; ond nid yw ef yn cefnogi'r teulu'n ariannol. Mae'n anfon arian o'i gyflog yn ôl adref i Lithwania ac mae'n gamblo.

Daeth yn feichiog gyda'i phlentyn ieuengaf yn ystod y cyfnod hwn ac fe gollodd ei thad i Covid. Ar ôl bod yn agos iawn at ei thad (a hithau wedi colli ei mam pan oedd hi'n dal yn blentyn), mae hi'n galaru'n ddwfn.

**Costau byw:** Mae rhent, nad budd-daliadau'n talu amdano mwyach, yn £700 y mis, ac mae gan mam gynllun talu ar gyfer ôl-ddyledion rhent blaenorol. Does dim cyswllt gyda thadau eraill y plant, felly nid yw hi'n cael cynhaliaeth plant.

**Bywyd ar yr Aelwyd:** Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi bod mewn cysylltiad yn ddiweddar ynglŷn ag ail gŵyn gan gymdogion pryderus am ymddygiad y plant ar yr ystâd. Mae Mam yn poeni bod eu hymddygiad yn mynd yn aflonyddgar ac yn cydnabod, ers colli ei thad, ei bod hi'n cael trafferth ymdopi. Does ganddi ddim modd i'w diddanu, a hithau'n methu â phrynu offer chwarae na gemau cyfrifiadur na ffonau fel sydd gan blant eraill. Yn ddiweddar mwynhaodd ei mab 8 oed sesiwn am ddim i roi blas iddo ar focsio ond fe wnaeth y tanysgrifiad o £3 yr wythnos ei atal rhag cofrestru.

Y rhan fwyaf o foreau mae Mam yn ofni na fydd ganddi ddigon o laeth ar gyfer brecwast a'r baban felly yn aml dim ond y plant iau sy'n cael brecwast. Y pryder nesaf yw ffrwythau. Os nad yw'r plant yn dod â ffrwythau, neu arian i brynu ffrwythau, bydd yr ysgol yn darparu hanner afal. Mae meddwl amdanynt yn cael dim ond hanner afal a phawb yn gwybod mai am ei bod hi heb anfon byrbryd nac arian y mae hyn yn "ei lladd yn llwyr". Ni all ei merch 15 oed fforddio colur, dillad, ffonau, teithiau i'r dref, ac ati sy'n ei hatal rhag cynnal cyfeillgarwch. Mae hyd yn oed ei hangenrheidiau pob dydd yn anfforddiadwy. Mae hi'n treulio llawer o'i hamser yn gofalu am ei brodyr a'i chwiorydd iau.

Mae gan mam obeithion a breuddwydion i'w holl blant ac mae'n ymwybodol iawn y bydd y trap tlodi y mae ynddo'n rhwystr i'w profiadau a'u cyfleoedd bywyd.

**Teulu C**: Mam sengl yn byw yn Hwlffordd gyda 2 ferch sy'n 6 - 14 oed. Mae gan ddau o'r plant Anghenion Ychwanegol (Anhwylder Herio Gwrthryfelgar, rhwystrau cyfathrebu, bod yn ymosodol iawn, cymhorthion clyw) ac maent ar feddyginiaeth a ryddheir yn araf. Mae mam yn dioddef gorbryder ac iselder ac mae'r plant hŷn yn ofalwyr i mam yn ogystal â bod mam yn ofalwr i'r plant. Maen nhw'n byw mewn tŷ rhent yn agos at yr ysgol.

**Costau byw:** Mae Mam yn credu bod ei chyllideb yn iawn, heblaw nad ydynt yn gallu cael eitemau moethus, na fforddio unrhyw beth nad yw'n hanfodol (fel gwyliau). Mae'n siopa mewn siopau elusennol lleol ac yn gwneud ei gorau glas i gyllidebu. Ar adegau maent wedi bod yn ddibynnol ar barseli bwyd o'u heglwys leol. Mae costau cynyddol biliau'r cartref yn effeithio ar y gyllideb fanwl gywir hon.

**Bywyd ar yr Aelwyd:** Oherwydd afiechyd Mam a chyflyrau meddygol y brodyr a chwiorydd iau, mae'r ddau blentyn hŷn yn ofalwyr ifainc cofrestredig ac yn mynychu sesiynau grŵp yn rheolaidd gyda Gweithredu dros Blant. Nid yw Mam yn gallu ariannu unrhyw weithgareddau allgyrsiol a bydd yn ceisio unrhyw weithgareddau rhad-ac-am-ddim sydd ar gael ac yn cofrestru ei phlant ynddynt, ond dim ond os darperir cludiant am ddim y gall wneud hynny.



# Adran 5:
# Beth ydym ni wedi'i wneud hyd yn hyn?

## Adran 5: Beth ydym ni wedi'i wneud hyd yn hyn?

Ein hymateb amlasiantaeth ar y raddfa fwyaf i'r argyfwng costau byw parhaus hyd yma fu'r rhaglen Cadw’n Gynnes, Cadw’n Iach (KWKW). Sefydlwyd yr arlwyo hon o gymorth sy’n canolbwyntio ar y gymuned ym mis Hydref 2022 ar gyfer trigolion Sir Benfro yn ystod yr argyfwng costau byw. Arweiniwyd ymgyrch KWKW gan Hyb Cymunedol Sir Benfro mewn partneriaeth â Chyngor Sir Penfro, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) ac amrywiaeth o asiantaethau gan gynnwys Bwrdd Iechyd Hywel Dda, y Gwasanaethau Brys, a'r Sector Gwirfoddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn grynodeb o'r hyn sydd eisoes wedi'i gyflawni i gefnogi tlodi a’r argyfwng costau byw trwy KWKW, ac mae'r wybodaeth ganlynol yn yr adran hon o'r strategaeth wedi cael ei darparu gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro trwy gyfrwng yr adroddiad a gwblhawyd ganddi ar y prosiect KWKW.




Mae’r argyfwng costau byw yn dal i effeithio ar bobl o bob cefndir, ac mae wedi profi’’n gyfnod pryderus ac ansicr i gynifer ohonom. Mewn ymateb uniongyrchol i'r amgylchiadau a oedd yn newid yn gyflym ac yn gryn her yr oedd yn rhaid i bobl leol ymgodymu â hwy, gwnaed gwaith yn gyflym i gysylltu pobl â gwybodaeth, cymorth a gwasanaethau lleol i'w helpu trwy gydol misoedd oeraf y flwyddyn. Ledled Sir Benfro gwelsom gymunedau a sefydliadau’n ymateb i'r argyfwng gan gynnig ystod o ddatrysiadau lleol gan gynnwys Mannau Cymunedol Croeso Cynnes, prydau twym, gweithgareddau cymunedol, ynghyd â chyngor ynghylch ynni, arian a dyledion.

Fe wnaeth Hwylusydd Iechyd a Llesiant Trydydd Sector Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro gymryd yr awenau ar gyfer datblygu'r rhaglen a hwyluso cyfarfodydd grŵp llywio bob pythefnos, a oedd yn dod â chynrychiolwyr o ystod eang o sefydliadau partner ynghyd. Roedd y grŵp llywio’n atebol i'r Gweithgor Tlodi dan arweiniad Cyngor Sir Penfro. Penderfynodd y Grŵp Llywio fabwysiadu dull ac iddo ddau gam ar gyfer darparu pecyn cydlynol o wybodaeth, cyngor a chymorth ymarferol i bobl yn Sir Benfro a oedd yn profi caledi ariannol o ganlyniad i’r costau byw a chostau ynni cynyddol. Roedd y dull dau gam hwn yn golygu y gallem asesu ble’r oedd angen ychwanegedd fwyaf a hefyd ble’r oedd yr effaith gadarnhaol fwyaf yn cael ei gwneud trwy'r cyllid a ddyfarnwyd. Cafodd y rhaglen ei hadolygu’n gyson gan y Grŵp Llywio Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach a'i haddasu yng ngoleuni'r galw am wasanaethau a'r adnoddau a oedd ar gael.

## Yr hyn a gyflawnwyd:

| | | |
|---|---|---|
| | Warm Welcome Community Spaces | 107 Warm Welcome Community Spaces registered on the interactive map<br><br>73 Warm Welcome Community Spaces provided with grant funding<br><br>1455 Warm Welcome Community Space sessions were delivered.<br><br>14,989 people benefited from Warm Welcome Community Spaces.<br><br>581 volunteers were involved in the coordination and delivery of Warm Welcome Community Spaces.<br><br>14,655 hours of volunteering were recorded.<br><br>28 of the 73 funded warm spaces have made some level of commitment to continue the projects which were supported by this fund up to 31st March. |
| | Energy & Fuel | 734 energy vouchers issued<br><br>594 Warm Packs delivered<br><br>260 air fryers distributed<br><br>25 £250 DAF fuel top-ups for oil issued<br><br>1 Fuel Poverty Champion recruited (volunteer)<br><br>521 people provided with fuel poverty advice/support<br><br>An estimated £12,000 in reduced bills or funding accessed for clients |
| | Money management | 242 families and 74 individuals in crisis received holistic financial support<br><br>9 families and 6 individuals assisted with Debt Relief Orders/bankruptcy fees<br><br>40 older people supported with income maximization<br><br>Additional income secured for older people<br>Grants £1800<br>Welfare benefits £9464 |
| | Food | 12772 hot meals were provided in Warm Welcome Community Spaces. |

| | | |
|---|---|---|
| | Pet food | 337 pet food donations made<br><br>282 individuals and families supported<br><br>24,471 meals provided for pets |
| | Essential items | 184 people supported by the PAVS Data Bank<br><br>141 families supported by Baby Bank<br>160 babies/children supported by Baby Bank<br>355 items/clothing bundles distributed by Baby Bank |
| | Communication & information | 2072 calls received by the Pembrokeshire Community Hub<br><br>6259 views of the Keep Warm, Keep Well in Pembrokeshire webpage<br><br>3063 views of the interactive Warm Welcome Community Spaces map<br><br>140,692 leaflets delivered to households<br><br>33 KWKW campaign posts/ads on social media received a total of 6188 interactions.<br>7 Pembrokeshire Community Support Network (PCSN) meetings hosted by PAVS |

## Mannau Croeso Cynnes




Penderfynodd y Grŵp Llywio Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach y byddai swm sylweddol o'r arian a oedd ar gael yn cael ei ddyrannu i ddatblygu rhwydwaith o Fannau Cymunedol Croeso Cynnes yn Sir Benfro. Roedd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar gyngor gan sefydliadau cenedlaethol a lleol, a Llywodraeth Cymru, y byddai pobl yn ceisio lloches mewn 'ystafelloedd cynnes' ledled y wlad gan bod yr argyfwng costau byw yn golygu y byddai llawer yn ei chael hi'n anodd cadw eu cartrefi ar dymheredd iach trwy'r gaeaf. Roedd Mannau Cymunedol Croeso Cynnes yn cynnig amgylchedd diogel, hygyrch a chynnes yn ystod y dydd, gydag ychydig yn gwneud hynny gyda'r nos, i helpu'r rhai a oedd yn wynebu tlodi tanwydd eithafol.

Mae'r Gronfa Cefnogi Gweithredu Cymunedol (SCAF) yn fecanwaith dosbarthu arian a ddatblygwyd ac a reolir gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) i'w gwneud yn bosibl dosbarthu cyllid o amrywiaeth o ffynonellau i'r sector yn Sir Benfro. Trwy'r Gronfa Cefnogi Gweithredu Cymunedol mae Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Penfro, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a Llywodraeth Cymru i gynorthwyo grwpiau i fynd i'r afael ag anghenion lleol.

Roedd 6ed Cylch y Gronfa Cefnogi Gweithredu Cymunedol yn cynnig cyllid o hyd at £3,500 i ddarparu croeso cynnes o dan y blaenoriaethau canlynol:

- **Arian Costau Rhedeg Ystafelloedd Cynnes** ar gyfer costau rhedeg i gadw'r mannau ar agor a'u gwresogi, gan ddarparu oriau agor yn ychwanegol at y rhai a oedd yn cael eu darparu eisoes h.y. oriau agor newydd neu ychwanegol.
- **Arian Gweithgareddau Ystafelloedd Cynnes** i weithgareddau ddigwydd yn y canolfannau, ar gyfer treuliau gwirfoddolwyr, cyllid i brynu gemau, ffilmiau, lluniaeth ac ati

O ganlyniad i'r cyllid a ddyfarnwyd, mae'r canlynol wedi cael ei gyflawni:

- Ariannwyd 57 o Fannau Cymunedol Croeso Cynnes yn 6ed Cylch y Gronfa Cefnogi Gweithredu Cymunedol.
- Ariannwyd 16 o brosiectau cymunedol hefyd i ddatblygu mannau cynnes ym 5ed Cylch y Gronfa Cefnogi Gweithredu Cymunedol trwy'r gronfa Byw'n Dda y Gaeaf Hwn.
- Ariannwyd cyfanswm o 73 o Fannau Cymunedol Croeso Cynnes.
- Fe gofrestrodd 107 o Fannau Cymunedol Croeso Cynnes gyda Hyb Cymunedol Sir Benfro ac fe'u hychwanegwyd at y map rhyngweithiol a ddatblygwyd gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro. Roedd y rhain hefyd yn cynnwys cyfleusterau a oedd yn cael eu rhedeg gan yr Awdurdod Lleol, 11 o Lyfrgelloedd yn Sir Benfro a 7 Canolfan Hamdden.
- Darparwyd 14,55 o sesiynau Mannau Cymunedol Croeso Cynnes.
- Cafodd 14,989 o bobl fudd o Fannau Cymunedol Croeso Cynnes.
- Cafodd 12,772 o brydau twym eu darparu mewn Mannau Cymunedol Croeso Cynnes.
- Bu 581 o wirfoddolwyr yn rhan o gydlynu a darparu Mannau Cymunedol Croeso Cynnes.
- Cofnodwyd 14,655 awr o wirfoddoli.
- Mae 28 o'r 73 o fannau cynnes a ariannwyd wedi gwneud rhywfaint o ymrwymiad i barhau â'r prosiectau a gefnogwyd gan y gronfa hon hyd at 31 Mawrth.

Darparwyd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer derbynwyr y Grant Cymorth Tlodi Bwyd a weinyddir gan yr Awdurdod Lleol tuag at gostau rhedeg, gwresogi a goleuo. Fe wnaeth hyn annog nifer o Fannau Cymunedol Croeso Cynnes i ehangu eu harlwy lluniaeth fel ei bod yn cynnwys prydau twym. **Darparwyd 12,772 o brydau twym** naill ai am ddim neu gost isel iawn ar draws y rhwydwaith Mannau Cymunedol Croeso Cynnes yn ystod gaeaf 22-23, gyda llawer yn parhau i gynnig prydau bwyd fel ffordd o roi cymorth parhaus i'r rhai ac arnynt angen pryd o fwyd wrth i'r argyfwng costau byw barhau i gael effaith.

Mae adroddiad llawn ar gyfer y prosiect ar gael, ond rydym wedi cynnwys detholiad o adborth gwerthfawr a gyflwynwyd gan aelodau'r gymuned a fu'n ymwneud â'r Mannau Clyd. Trwy gydol y broses o ddatblygu'r ddarpariaeth hon, yn ogystal â drafftio'r strategaeth hon, rydym wedi parhau i fod yn ymwybodol bod llais defnyddwyr gwasanaeth yn arf pwerus y dylem fod yn ei ddefnyddio i helpu i roi arweiniad i'n gwaith cynllunio i ddiwallu anghenion y rhai yn ein cymunedau sydd fwyaf angen ein cymorth yn y ffordd orau.

*"Mae'n anhygoel mynd allan o'r tŷ a gweld pobl y gallaf siarad gyda nhw. Rwy'n fam sengl, anabl i dri o blant ac er bod fy mab ieuengaf yn dod gyda mi gallaf ymlacio a bod yn fi fy hun."*

*"Un foment arbennig oedd ein buddiolwr 94 oed a ddywedodd wrthym ein bod yn achubiaeth iddi oherwydd bod llawer o nosweithiau pan nad oedd hi'n bwyta oherwydd nad oedd am drafferthu gwneud rhywbeth iddi hi ei hun a'i bod yn aml yn mynd i'r gwely oherwydd nad oedd unman i fynd na dim byd i'w wneud. Roedd y ffaith ein bod ar agor ddwywaith yr wythnos gyda'r nos nid yn unig yn rhoi rhywbeth iddi ei wneud a rhywfaint o gwmnïaeth iddi ond roedd hefyd yn lleddfu unrhyw ofnau oedd ganddi am orfod bwydo ei hun am ychydig ddyddiau gan ei bod yn aml yn mynd â dognau ychwanegol adref gyda hi ar gyfer y diwrnod wedyn."*

*"Mae wedi gwneud gwahaniaeth i mi y gaeaf hwn, mae pawb mor gyfeillgar."*

*"Roedd ar lawer o bobl iau eisiau dianc o gartrefi oer a thlodi a oedd yn gwaethygu. Roedden nhw'n gweld ystafelloedd clyd fel symbol grymus o'r argyfwng costau byw yng Nghymru."*

*"Gwnaeth rhai o'n trigolion oedrannus sylwadau am fudd nas rhagwelwyd. Roedd yr ystafelloedd clyd yn herio melltith gymdeithasol unigrwydd! Dianc o dŷ gwag oedd yr hyn yr oedd llawer yn ei gael fwyaf boddhaol am ein lle clyd."*

*"Bu preswylydd lleol 97 oed yn dod draw am ychydig wythnosau gyda'i ferch. Roedd wedi colli ei wraig yn ddiweddar a hwythau wedi bod yn briod am 70 mlynedd ac roedd arno angen gyda phobl eraill a mwynhau rhywfaint o ryngweithio cymdeithasol mewn lle clyd i ffwrdd o'i gartref ei hun. Arhosodd gyda ni tan ddiwedd y sesiynau ac mae bellach wedi dod yn fynychwr rheolaidd yn ein Ciniawau Misol i Bensiynwyr."*


*"Mae pethau syml yn gallu bod yn help mawr - yn ystod sgyrsiau yn yr ystafelloedd clyd fe ganfuwyd fod sawl person yn cael trafferth cael pasys bws newydd, ac roedd Sharon o TTC yn gallu eu helpu i wneud union hynny."*

*"Nid oedd dau o'r cyfranogwyr oedrannus a oedd yn mynychu'r prydau bwyd yn aml ac a oedd yn cael lifftiau i wneud hynny wedi bod mewn cyfarfod cymdeithasol ers cyn y pandemig, ac fe wnaethant rannu eu llawenydd o gael pryd o fwyd twym am ddim a chwmni am ddiwrnod yn ystod yr wythnos."*




Mae'n anodd cyfleu holl hyd a lled yr hyn sydd eisoes wedi cael ei gyflawni yn Sir Benfro i roi cymorth gyda'r argyfwng costau byw. Mae'r gwaith rhagweithiol ar draws ein cymunedau wedi bod yn helaeth. Mae'r strategaeth yn amlygu'r gwaith mwyaf amlwg ac ar y raddfa fwyaf sydd wedi digwydd, ond mae llu o brosiectau a mentrau a grëwyd gan aelodau'r Grŵp Tlodi, y BGC a'r tu hwnt. Mae llawer o grwpiau a chymunedau lleol wedi dod at ei gilydd i gefnogi ei gilydd mewn ffyrdd creadigol a chynaliadwy, ac mae potensial y bydd llawer o'r elfennau o gymorth a ddatblygodd allan o reidrwydd i helpu pobl leol yn ystod cyfnod hynod anodd yn gadael etifeddiaeth o gydnerthedd a chysylltedd ar draws y Sir.

## Llais Pobl Ifanc




Y Swyddfa Hawliau Plant a Phobl Ifanc (CYPRO) yn Sir Benfro sy'n arwain ar ddarparu Cyfranogiad a Hawliau Plant a Phobl Ifanc ar ran Cyngor Sir Penfro. Mae'r gwaith hwn yn galluogi pobl ifanc i ddweud eu dweud am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac yn hyrwyddo llais pobl ifanc a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Bob dwy flynedd, mae Cynulliad Ieuenctid Sir Benfro'n creu ac yn hwyluso eu Hymgynghoriad **'Beth sy'n Bwysig i Chi?**'. Crëwyd yr ymgynghoriad hwn i ddarganfod pa bynciau sydd bwysicaf i bobl ifanc yn Sir Benfro, a hefyd i nodi pa waith y mae angen ei wneud mewn perthynas â hyn i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl ifanc yn dweud wrthym eu bod yn effeithio'n negyddol ar eu bywydau presennol yn ogystal â'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol. O ran y materion blaenoriaeth a amlygwyd gan bobl ifanc fel eu pryderon mwyaf, roedd rhai themâu blaenllaw iawn a ddaeth i'r amlwg eleni gyda chonsensws clir ynghylch y mater amlycaf sy'n effeithio ar bobl ifanc leol.

**'Costau Byw' oedd y prif bryder a rannwyd gan bobl ifanc yn Sir Benfro - gyda 1301 o bleidleisiau.**

**Roedd bwlch o bron i 500 o bleidleisiau rhwng hwn a'r pryder uchaf nesaf, sef Iechyd a Lles Emosiynol gydag 836 o bleidleisiau.**

O ran y strategaeth tlodi a goleuo ein hymateb, yr hyn y mae'r canlyniadau hyn yn ei ddweud wrthym yw bod plant a phobl ifanc yn amlwg yn gweld ac yn teimlo effeithiau uniongyrchol tlodi a chaledi. Maent yn cydnabod yr effaith y mae hyn yn ei chael nid yn unig ar eu bywydau o ddydd i ddydd yn awr, ond hefyd sut y bydd yn effeithio ar eu cyfleoedd a'u dyheadau yn y dyfodol.

# Adran 6: Cynllun Gweithredu

Trechu Tlodi: Ein Strategaeth 2023

## Adran 6: Cynllun Gweithredu

Ers ei sefydlu, mae aelodau craidd Grŵp Llywio Strategaeth Tlodi Sir Benfro wedi cynrychioli gwasanaethau a sefydliadau lleol mewn trafodaethau parhaus ynghylch effaith tlodi ar ein hardal leol a'n trigolion, yn enwedig mewn perthynas â phlant a theuluoedd.

Mae aelodau'r grŵp wedi mynegi eu profiadau amrywiol a chyfunol o gefnogi cymunedau, yr heriau a wynebwyd yn ogystal ag arfer llwyddiannus sydd wedi creu effaith gadarnhaol ac wedi lliniaru rhai o effeithiau negyddol caledi a thlodi a achoswyd gan amgylchiadau diweddar.

Yn awr rydym yn ceisio cyfleu ein cynlluniau cyfunol ar gyfer y tymor byr yn ogystal â chamau gweithredu tymor hwy y mae partneriaid yn ceisio ymrwymo iddynt. Gwahoddwyd aelodau'r Grŵp Llywio i gyflwyno eu cynigion o gymorth, sydd bellach wedi'u coladu a'u hamlinellu yn y tabl canlynol o gamau gweithredu fel datganiad o'n hymdrechion cyfunol a'n cynllun amlasiantaeth i helpu pobl Sir Benfro i ffynnu.

Ein fframwaith trefniadol ar gyfer ein camau gweithredu i'r dyfodol o dan y strategaeth hon yw'r pedwar categori atal y cytunwyd arnynt rhwng Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Llywodraeth Cymru:

- <u>Atal sylfaenol (AS):</u> Meithrin cydnerthedd – creu'r amodau lle na fydd problemau'n codi yn y dyfodol. Ymagwedd gyffredinol.
- <u>Atal eilaidd (AE):</u> Targedu camau gweithredu tuag at ardaloedd lle mae risg uchel y bydd problem yn digwydd. Dull wedi'i dargedu, sy'n cadarnhau egwyddorion cyffredinoliaeth gynyddol.
- <u>Atal trydyddol (AT):</u> Ymyrryd unwaith y bydd problem, ei hatal rhag gwaethygu a'i hatal rhag digwydd eto yn y dyfodol. Dull ymyrryd.
- <u>Gwariant acíwt (GA):</u> Gwariant, sy'n gweithredu i reoli effaith sefyllfa negyddol gref ond sy'n gwneud ychydig neu ddim i atal problemau rhag digwydd yn y dyfodol. Dull adferol.

Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn ceisio gweithio yn y meysydd atal Sylfaenol ac Eilaidd, gan mai dyma'r dulliau mwyaf cynaliadwy sydd â'r potensial mwyaf ar gyfer effaith hirdymor. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol iawn bod y cyfraddau tlodi cynyddol yn y Sir, ac effaith yr argyfwng costau byw parhaus, yn mynnu ymateb ar unwaith. Yn yr ystyr hwnnw, nid ydym yn ymddiheuro am gynnwys camau gweithredu y gellir eu hystyried yn Atal Trydyddol, neu hyd yn oed Gwariant Acíwt.

| **Atal Sylfaenol** | | |
|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Partner Arweiniol | Amserlen |
| Bydd y prosiect Codi Cyflawniad Pobl Ifanc Ddifreintiedig (RADY) yn parhau, fel rhan o ymrwymiad hirdymor i fynd i'r afael â'r bwlch cyflawniad rhwng pobl ifanc ddifreintiedig a'u cyfoedion. | Gwasanaeth Addysg CSP | 2023 ymlaen |
| Hyrwyddo a hwyluso gwaith Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd mewn ysgolion, gyda phwyslais ar flaenoriaethu cymorth tuag at y rhai mwyaf difreintiedig yn economaidd. | Gwasanaeth Addysg CSP | 2023 ymlaen |
| Prydau Ysgol am Ddim - Mae'r polisi Prydau Ysgol Am Ddim i Bawb yn rhan o'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, a fydd yn golygu bod prydau ysgol am ddim yn cael eu hestyn i bob dysgwr mewn ysgol gynradd dros y tair blynedd nesaf.<br>O fis Medi 2022, bydd ysgolion yn Sir Benfro yn cyflwyno **Prydau Ysgol am Ddim** i blant mewn:<br>• darpariaeth feithrin llawn-amser<br>• dosbarth derbyn<br>• a disgyblion blynyddoedd 1 a 2 mewn ysgolion cynradd<br>Yn Sir Benfro, bydd pob disgybl ysgol gynradd (o ddisgyblion meithrin llawn-amser i ddisgyblion blwyddyn 6) yn cael prydau ysgol am ddim o fis Medi 2023. | CSP | Medi 2023 |
| Cyflawni'r camau gweithredu yn ein strategaeth 'Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl a Lles', yn enwedig yr ymyriadau seiliedig ar ddeall trawma sydd fwyaf tebygol o fod o fudd i blant a phobl ifanc difreintiedig. | Gwasanaeth Addysg CSP | 2023 ymlaen |
| Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn neilliannau Addysg, Iechyd ac Economaidd plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi, trwy ddarparu mynediad at:<br>• Ddarpariaeth gofal plant (gan gynnwys cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau meithrin)<br>• Defnyddio arian Ymgyrraedd yn Ehangach i roi cymorth gwell i Bobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal (YPLA).<br>• Cefnogi gwaith partneriaid amlasiantaeth<br>• Rhaglen Iechyd a Lles<br>• Rhaglen gyfoethogi (gan gynnwys gweithgareddau hamdden, archgwricwla a diwylliannol)<br>• Rhaglen Mwy Abl a Thalentog (MATh) | Coleg Sir Benfro | 2023-25 |
| Datblygu a gweithredu strategaeth i leihau anghydraddoldebau iechyd yn ardal y Bwrdd Iechyd. | BIPHDd | Yn mynd rhagddo ar hyn o bryd |
| Parhau â'r rhaglen uchelgeisiol i wella effeithlonrwydd ynni stoc dai'r cyngor a fydd yn arwain at ostyngiad yn y biliau ynni i denantiaid. Yn cyd-fynd â'r rhaglen hon bydd rhaglen newid ymddygiad tenantiaid i sicrhau bod tenantiaid yn gallu deall a defnyddio'r dechnoleg newydd a gwella effeithlonrwydd thermol y stoc dai i sicrhau bod tlodi tanwydd yn cael ei leihau i'r eithaf. | Gwasanaeth Tai CSP | Wrthi'n mynd rhagddo |

| | | |
|---|---|---|
| Cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd ar gyfer datrysiadau cynhesrwydd fforddiadwy yn nhai'r sector preifat i gefnogi targed Llywodraeth Cymru i gyflawni sgôr A yn y Dystysgrif Perfformiad Ynni i'r rhai mewn tlodi tanwydd erbyn 2030 a phob deiliadaeth tai erbyn 2050. | Gwasanaeth Tai CSP | 2023-26 |
| Datblygu Cynllun Datgarboneiddio ar gyfer stoc dai'r cyngor, er mwyn gweithio tuag at dargedau Llywodraeth Cymru i gyflawni sgôr A yn y Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) erbyn 2033, ac wrth weithredu targedau Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2023. Yn cyd-fynd â'r rhaglen hon bydd rhaglen newid ymddygiad tenantiaid i sicrhau bod tenantiaid yn gallu deall a defnyddio'r dechnoleg newydd a gwella effeithlonrwydd thermol y stoc dai i sicrhau bod tlodi tanwydd yn cael ei leihau i'r eithaf. | Gwasanaeth Tai CSP | 2023 Wrthi'n mynd rhagddo |
| Cwblhau datblygiad Strategaeth Dai ar gyfer Sir Benfro, gan gynnwys partneriaid allweddol a darparu'r fframwaith ar gyfer targedu adnoddau sydd ar gael o bremiwm y dreth gyngor, symiau gohiriedig, y rhaglen Grant Tai Cymdeithasol, opsiynau perchentyaeth gost isel (LCHO) / rhent.  Bydd y Cabinet yn cytuno ar hyn yn 2023, a bydd yn cael ei ategu gan ddatblygiad Partneriaeth Tai Strategol amlasiantaeth. | Gwasanaeth Tai CSP | 2023 Wrthi'n mynd rhagddo |
| Mae cynllun ailgylchu dillad awyr agored wedi cael ei sefydlu, sydd wedi'i fwriadu i drosglwyddo dillad awyr agored a ddefnyddiwyd a/neu nad oes mo'u heisiau i gynorthwyo trigolion lleol i gadw'n gynnes ac yn egnïol trwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn cefnogi mynediad teg at ddillad o ansawdd da i'r rhai na fyddent fel arall yn gallu fforddio'r dillad y mae eu hangen i fynd allan i'r awyr agored ym mhob tywydd. | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Wrthi'n mynd rhagddo |
| Ymrwymiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol; trwy dalu ychwanegiad i'n staff i sicrhau bod pawb yn cael y Cyflog Byw Gwirioneddol ac addasu ein polisïau Adnoddau Dynol i gefnogi ffyrdd mwy hyblyg o weithio sy'n rhoi gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i staff. | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Wrthi'n mynd rhagddo |
| Mae APCAP yn cynnal prosiect Y 1,000 Diwrnod 1af sy'n darparu rhaglen o gyfleoedd chwarae awyr agored yn ardal Doc Penfro/Penfro. Cafodd y prosiect Y 1,000 Diwrnod 1af ei sefydlu mewn ymateb i ymgynghoriad 1,000 Diwrnod Senedd Cymru, a ddisgrifiodd 3 blynedd gyntaf bywyd plentyn fel "cyfnod o botensial aruthrol a bregusrwydd enfawr". | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Wrthi'n mynd rhagddo |
| Mae Gwreiddiau i Adferiad yn brosiect dan arweiniad pobl sy'n canolbwyntio ar feithrin pwerau adferol awyr agored anhygoel Sir Benfro fel ffordd o hybu lles meddyliol. Cyflawnir y prosiect gan APCAP mewn partneriaeth gyda Mind Sir Benfro ac fe'i cefnogir trwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol tan fis Medi 2024. | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Wrthi'n mynd rhagddo |
| Mae Prosiect Gwirfoddoli Llwybrau APCAP yn helpu pobl 16 oed a throsodd i wella eu hiechyd a'u lles wrth iddynt ennill profiadau a sgiliau newydd trwy weithgarwch ymarferol yn yr awyr agored. Mae gweithgarwch y prosiect hefyd yn cefnogi datblygiad sgiliau a gwybodaeth ar gyfer addysg a chyflogaeth. Ymhlith y grwpiau targed ar gyfer y prosiect mae pobl ifanc a'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl. | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Wrthi'n mynd rhagddo |
| Darparu ystod eang o gyfleoedd gwirfoddoli fel modd i gynorthwyo trigolion lleol i ennill sgiliau a hyder gyda hynny, yn ei dro, yn gwella eu cyflogadwyedd gan greu rhwydwaith o gyfeillgarwch a chymorth. | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Wrthi'n mynd rhagddo |
| **Atal eilaidd** | | |

| Cam Gweithredu | Partner Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|
| Bydd y prosiect 'Pobl PWR', mewn partneriaeth gyda Cyngor ar Bopeth Sir Benfro, yn cyngor a chymorth mewn perthynas â hawliau lles ac arian i deuluoedd ledled y Sir, gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth trwy ysgolion a lleoliadau cymunedol eraill.<br>Mae'r prosiect hwn, a ddatblygwyd mewn partneriaeth gyda CSP, wedi cael ei gomisiynu i ganolbwyntio ar gynyddu incwm i'r eithaf ar gyfer teuluoedd lleol mewn ymdrech i fynd i'r afael â thlodi a nifer o effeithiau cysylltiedig caledi.<br><br>Mae Cyngor ar Bopeth Sir Benfro wedi bod yn gweithio gyda theuluoedd am flynyddoedd lawer, ac fel rhan o'r prosiect newydd hwn rydym yn parhau i gynnig cymorth arbenigol gyda phethau fel:<br>• Cyngor cyfrinachol, diduedd, yn rhad ac am ddim.<br>• Gwirio bod rhieni a gofalwyr yn hawlio'r holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt - gan gynnwys cymorth i lenwi ffurflenni hawlio lle y bo angen.<br>• Cynnig ffyrdd y gall aelwydydd wneud y gorau o'u hincwm.<br><br>Pwrpas Pobl PWR yw ehangu mynediad at Cyngor ar Bopeth a chodi ein proffil yn y gymuned leol, gan obeithio ei gwneud yn haws i deuluoedd gael yr help y mae ei angen arnynt. Y nod yw creu mwy o sefydlogrwydd ariannol i aelwydydd, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwella gallu ariannol. | Cyngor ar Bopeth Sir Benfro a Gwasanaeth Addysg CSP | 2023-25 |
| Mae'r Cyngor wedi partneru gyda CAB i ddarparu gwasanaeth cyngor ar ddyledion a chynyddu incwm cyfrinachol, wedi'i deilwra a rhad-ac-am-ddim yn Sir Benfro. Mae Cyngor ar Bopeth Sir Benfro yn ymrwymedig i fynd i'r afael â thlodi lleol trwy ddarparu gwasanaeth cyngor rheng-flaen sy'n bwrw golwg gyfannol ar sefyllfaoedd unigol cleientiaid.<br><br>Ein nod yw helpu ein cleientiaid i ddatrys caledi ariannol trwy fynd i'r afael yn gyntaf ag unrhyw bryderon ynghylch dyledion brys, trwy ein cynghorwyr dyledion arbenigol, i atal caledi a gorbryder pellach. Yna rydym yn ceisio cynyddu eu hincwm i'r eithaf trwy wirio budd-daliadau a rhoi cymorth i gyllidebu. Gall fod yn anodd llywio drwy'r system fudd-daliadau i lawer o'n cleientiaid felly mae cael mynediad at adnoddau fel cyfrifiadau 'Gwell Eich Byd' i wirio sut y gallai unrhyw gyfleoedd cyflogaeth neu benderfyniadau teuluol effeithio ar eu hincwm yn hanfodol i'w cydnerthedd ariannol.<br><br>Rydym hefyd yn cynnig llwybr atgyfeirio at gyngor cyfreithiol am ddim i gleientiaid sy'n ymdrin â pherthnasoedd yn chwalu neu faterion cyfraith teulu gan y gall y sefyllfaoedd hyn effeithio'n gyflym ac yn sylweddol ar incwm nodweddiadol aelwyd. | Cyngor ar Bopeth Sir Benfro a Gwasanaeth Adfywio CSP | Wrthi'n mynd rhagddo |
| Cefnogi ysgol uwchradd Aberdaugleddau yn ei hymdrechion i sicrhau statws 'Ysgol sy'n Deall Trawma'. | Gwasanaeth Addysg CSP | 2023 ymlaen |

| | | |
|---|---|---|
| Bydd y prosiect Tiwtora Cymheiriaid (sy'n canolbwyntio ar gyflawniad plant a phobl ifanc difreintiedig) yn parhau i ehangu, gyda niferoedd cynyddol o diwtoriaid a thiwtoreion mewn ysgolion cynradd. | Gwasanaeth Addysg CSP | 2023-25 |
| Mae cyfran o gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei defnyddio i ehangu rhaglen FaCE (Ymgysylltu â'r Gymuned a Theuluoedd) yn ehangach ledled ardal yr ALl gan bod hon wedi bod yn rhaglen beilot hynod lwyddiannus a gydnabyddir fel arfer da gan Lywodraeth Cymru. Ein nod yw bod wedi darparu o leiaf un cylch o FaCE ym mhob ysgol yn Sir Benfro, yn rhai cynradd ac uwchradd, erbyn diwedd mis Mawrth 2025.<br><br>Ffocws FaCE yw darparu rhaglen strwythuredig o gyfleoedd dysgu a gweithgareddau cyfoethogi sy'n seiliedig ar rifedd i gynorthwyo ysgolion i dargedu teuluoedd sydd wedi ymddieithrio. Nod FaCE yw meithrin perthnasoedd gwaith parchus a chefnogol sy'n effeithio'n gadarnhaol ar y ddeinamig a rhyngweithiadau rhwng y cartref a'r ysgol; gwella rhagolygon bywyd y teuluoedd, eu plant, y dysgwyr a deilliannau dysgwyr wedi hynny. | Gwasanaeth Addysg CSP | 2023-Ebrill 2025 |
| Cynorthwyo teuluoedd i leihau diffyg gwaith trwy ddarparu tiwtorialau a biwro cyflogaeth y Coleg. | Coleg Sir Benfro | 2023 ymlaen |
| Cynyddu incwm aelwydydd fel elfen allweddol o drechu tlodi trwy:<br>• Ddarparu mynediad at wybodaeth a chymorth gan y tîm cymorth ariannol i ddysgwyr gan gynnwys Lwfans Cynhaliaeth Addysg, Grant Dysgu Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn<br>• Cynnal arolwg yn ystod y cyfnod sefydlu i roi gwybod i'r Coleg am fynediad dysgwyr a Staff at dechnolegau a mynediad band eang<br>• Cyflwyno cynllun cymorth ar gyfer dysgwyr seiliedig-ar-waith nad ydynt yn gymwys i gael cymorth o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn<br>• Darparu prydau coleg am ddim (PCADd) i ddisodli prydau ysgol am ddim (PYADd)<br>• Darparu cyrsiau llythrennedd ariannol, mynediad/ atgyfeirio at wasanaethau cwnsela ynghylch dyledion, a chymorth gyda chostau gofal plant<br>• Sefydlu undeb credyd yn y coleg<br>• Integreiddio cyrsiau i gefnogi datblygiad llythrennedd ariannol o fewn yr arlwy o diwtorialau. | Coleg Sir Benfro | 2023 ymlaen |
| Ehangu'r tîm cymorth tai o 3 i 6 aelod o staff i'n galluogi i roi mwy o gymorth i denantiaid CSP. | Gwasanaeth Tai CSP | 2023 |
| Parhau i weithredu cynllun prydlesu'r Sector Rhentu Preifat (PRS) yn y sir fel rhan o gyflwyno'r cynllun yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru - cynnydd mewn gosodiadau PRS, mwy o gartrefi gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto. | Gwasanaeth Tai CSP | 2023 ymlaen |
| Mae Mynediad i Bawb yn gyfres o fentrau sydd wedi'u bwriadu i wella mynediad at y Parc Cenedlaethol ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr â phroblemau symudedd. Mae hyn yn cynnwys prosiectau hynod lwyddiannus fel y cynllun Cadeiriau Olwyn Traeth gan yr Awdurdod. | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Wrthi'n mynd rhagddo |

| | | |
|---|---|---|
| Mynediad am ddim i safleoedd ymwelwyr yr Awdurdod (Oriel y Parc, Castell Henllys a Chastell Caeriw) i breswylwyr sy'n byw gerllaw. Yn ogystal â phrisiau mynediad is i'r safleoedd uchod ar gyfer pobl 65+ a myfyrwyr ynghyd â mynediad am ddim i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a gofalwyr. | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | 2023 - Wrthi'n mynd rhagddo |
| Grant Urddas Mislif - Mae CSP wedi gallu gweithredu a thyfu gwasanaeth tanysgrifio hynod lwyddiannus ar gyfer cynnyrch mislif; cymorth wedi'i dargedu yw hwn ac mae wedi bod yn allweddol wrth ymgysylltu'n gadarnhaol â rhai o'n preswylwyr mwyaf difreintiedig yn ogystal â grwpiau lleiafrifol. Rydym bellach wedi ariannu 400 o danysgrifiadau misol i ddarparu cynnyrch mislif am ddim, gan gynnig dosbarthu eitemau misglwyf am ddim yn uniongyrchol i'r cartref mewn ymdrech i gefnogi pobl leol sy'n profi tlodi mislif. Mae'r system hon yn galluogi pobl i gael mynediad teg at gymorth ni waeth beth fo'u lleoliad yn y Sir. | CSP | Wrthi'n mynd rhagddo tra pery'r arian grant. |

<table>
<tr><th colspan="3">Atal Trydyddol</th></tr>
<tr><th>Cam Gweithredu</th><th>Partner Arweiniol</th><th>Amserlen</th></tr>
<tr><td>Mae'r prosiect Angor Pobl a Sgiliau a ariennir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ymateb cydweithredol gan y Cyngor i themâu allweddol yn y Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol; gan ddwyn ynghyd wasanaethau cyflogaeth a sgiliau mewnol y Cyngor, ei wasanaeth allgymorth ieuenctid, cymorth pontio blwyddyn 11 a dysgu oedolion a chymunedol o gyfarwyddiaethau Gofal Cymdeithasol, Addysg a Gwasanaethau Cymunedol y Cyngor.<br>Mae rhai o'r deilliannau yr ydym yn gobeithio eu cyflawni o ganlyniad i'r gwaith hwn fel a ganlyn:<br>
<table>
<tr><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Nifer y bobl sy'n dweud bod ganddynt fwy o gyflogadwyedd trwy ddatblygu sgiliau rhyngbersonol a ariannwyd gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU</td><td>70</td></tr>
<tr><td>Nifer y bobl sy'n cynnal ymgysylltiad â chymorth gan weithwyr allweddol a gwasanaethau ychwanegol</td><td>55</td></tr>
<tr><td>Nifer y bobl sy'n chwilio am waith yn dilyn cael cymorth</td><td>80</td></tr>
<tr><td>Nifer y bobl mewn cyflogaeth, gan gynnwys hunangyflogaeth, yn dilyn cael cymorth</td><td>125</td></tr>
<tr><td>Nifer y bobl sy'n profi llai o rwystrau strwythurol i gyflogaeth ac i ddarpariaeth sgiliau</td><td>150</td></tr>
<tr><td>Nifer y bobl sy'n gyfarwydd â disgwyliadau cyflogwyr, gan gynnwys safonau ymddygiad yn y gweithle</td><td>70</td></tr>
<tr><td>Nifer y bobl sy'n ennill cymhwyster neu'n cwblhau cwrs yn dilyn cael cymorth</td><td>114</td></tr>
<tr><td>Cynnydd yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn cymorth sgiliau bywyd yn dilyn ymyriadau (% y cynnydd)</td><td>235</td></tr>
<tr><td>Lluosi yn unig - Nifer yr oedolion sy'n cymryd rhan mewn cymwysterau a chyrsiau mathemateg hyd at, a chan gynnwys, Lefel 2</td><td>540</td></tr>
</table></td><td>DSP – Dysgu Sir Benfro, y Gwasanaeth Addysg ac Ieuenctid Sir Benfro</td><td>O’r presennol hyd at 31 Mawrth 2025</td></tr>
<tr><td>Bydd Gwaith yn yr Arfaeth, â chyllid o’r Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn cynorthwyo teuluoedd i leihau diffyg gwaith trwy gyfrwng rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau i bobl 14+ oed sydd fwyaf difreintiedig yn ein cymunedau. (Cymunedau am Waith+, Twf Swyddi Cymru+, Ailgychwyn, Dyfodol Sgiliau, Sgiliau ar gyfer Llwyddiant, Cynlluniau Addysg Personol, Profiad Gwaith yn yr Ysgol). Mae'r rhaglenni'n cynnwys:<br>• Cymorth gyda llythrennedd ariannol, cyllidebu a chynyddu incwm i’r eithaf<br>• Rhaglen llesiant<br>• Cymorth gyda rhwystrau, hyfforddiant, llythrennedd digidol a chostau gofal plant<br>• Lwfans dysgu, lwfans teithio a lwfans bwyd dyddiol i bobl ifanc 16-18 oed.<br>• Cefnogi gwaith partneriaid amlasiantaeth</td><td>Gwaith yn yr Arfaeth</td><td>Yn barhaus tan 31 Mawrth 2025</td></tr>
<tr><td>Mae'r Tîm Ieuenctid Cymunedol yn gweithredu rhaglen yn ystod y gwyliau ysgol gan ddefnyddio unrhyw gyllid grant sydd ar gael. Lle y bo’n bosibl, mae plant yn cael bwyd am ddim, cyflawnwyd hyn dros y gaeaf</td><td>Ieuenctid Sir Benfro</td><td>Wrthi’n mynd rhagddo</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| gydag arian 'Fit and Fed'. Mae'r rhaglen yn y gwyliau mewn egwyddor yn 'ddarpariaeth mynediad agored gyffredinol' fel y mae ein clybiau ieuenctid. Fodd bynnag, cyn i'r rhaglen fod ar gael yn gyffredinol, rydym yn anfon gwybodaeth at weithwyr cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill fel y gall y rhai sy'n gweithio gyda phlant agored i niwed gael cymorth i gael mynediad at y ddarpariaeth. | | |
| Mae'r Tîm Cymorth Ieuenctid yn gweithio gyda phobl ifanc 16-25 oed i roi Cymorth Fel y Bo Angen i denantiaid ifainc er mwyn iddynt gynnal eu tenantiaeth. Mae'r tîm hefyd wedi cael comisiwn i weithredu llety â chymorth. Amcan y prosiectau hyn yw datblygu llwybr tuag at fyw'n annibynnol ac atal tenantiaeth rhag methu ac atal digartrefedd. | Ieuenctid Sir Benfro | Wrthi'n mynd rhagddo |
| Rydym yn parhau i ddefnyddio arian refeniw Ar Ffiniau Gofal i gefnogi teuluoedd â phlant gydag angenrheidiau sylfaenol, fel ffordd o geisio eu dargyfeirio i ffwrdd o fod angen ymyriadau statudol. Mae hyn yn cynnwys darparu talebau bwyd, gwarantau teithio, prynu nwyddau gwynion, setlo dyledion rhent, carpedi newydd, dillad ar gyfer plant ac ati. (roedd cais i Lywodraeth Cymru am ychwanegiad at y pot hwn yn llwyddiannus a bydd yn cael ei ddarparu ar gyfer 23/24 a 24/25). | Gwasanaeth Plant CSP | Cadarnhawyd cyllid 2023-2025 |
| Byddwn yn parhau i gynnal ein cyfraddau lwfans gofalwr maeth cynyddol, yn groes i ddull y 21 ALl arall yng Nghymru. Mae hyn yn cydnabod y ffaith y gallai gofalwyr maeth yn hawdd syrthio i mewn i dlodi o ganlyniad i'w gallu cyfyngedig i ennill cyflog oherwydd cyfrifoldebau gofalu. Roedd hyn yn cynnwys taliad wedi'i ôl-ddyddio mewn cyfandaliad i'r holl ofalwyr cymwys. | Gwasanaethau Plant CSP | 2023 - Wrthi'n mynd rhagddo |
| Byddwn yn parhau â'n partneriaeth gyda'r Sefydliad Banc Tanwydd i allu helpu ein tenantiaid gyda thalebau nwy a thrydan a hefyd i helpu gyda chost olew a nwy LPG. Mae hyn yn ategu gwaith presennol, megis ceisiadau â chymorth am daliadau Costau Byw a Thanwydd y Gaeaf, yn ogystal â defnydd rhagweithiol o'r Gronfa Cymorth Dewisol i helpu tenantiaid mewn sefyllfaoedd o argyfwng ac i helpu gydag eitemau hanfodol. | Gwasanaeth Tai CSP | Wrthi'n mynd rhagddo |
| Gweithredu'r Cynllun Ailgartrefu Cyflym gyda'r nod o fynd i'r afael â'r pwysau cynyddol ar lety dros dro yn y sir – llety ag 1 ystafell wely ychwanegol, gweithredu'r model 'Tai yn Gyntaf'. | Gwasanaeth Tai CSP | Wrthi'n mynd rhagddo |
| Bydd swyddogaeth cymorth busnes CSP yn parhau i fynd ati'n rhagweithiol i gefnogi ac annog y gadwyn gyflenwi i ymgysylltu â busnesau lleol a chontractau/prosiectau ar raddfa fawr gan olygu bod manteision economaidd yn treiddio drwy'r sir.<br><br>Mae'r cymorth a sgiliau a roddir i bobl yn hybu cyflogadwyedd, uwchsgilio a thraws-sgilio, gan sicrhau adnoddau o fewn yr economi leol a chreu cyflogaeth â chyflog da i'r preswylwyr. Mae'r gweithgaredd hwn yn agor marchnadoedd a ffrydiau refeniw newydd i fusnesau ac mae hefyd yn darparu potensial ar gyfer twf. Mae'n diogelu swyddi yn ogystal â chreu rolau newydd yng ngweithlu'r sir. | Gwasanaeth Adfywio CSP | Wrthi'n mynd rhagddo |
| Y Porthladd Rhydd Celtaidd yn Aberdaugleddau a Phort Talbot. Bydd y porthladd rhydd wedi'i leoli o amgylch porthladd Port Talbot yng Nghastell-nedd Port Talbot, a phorthladd Aberdaugleddau yn Sir Benfro. Mae'r cynlluniau'n canolbwyntio ar dechnolegau carbon isel, megis gwynt arnofiol ar y môr | Gwasanaeth Adfywio CSP | Wrthi'n mynd rhagddo |

| | | |
|---|---|---|
| (FLOW), hydrogen, dal, defnyddio a storio carbon (CCUS) a biodanwyddau i gefnogi lleihad cyflymach mewn allyriadau carbon. Mae’r porthladd rhydd yn amcanu at ddenu mewnfuddsoddiad sylweddol, gan gynnwys £3.5 biliwn yn y diwydiant hydrogen yn ogystal â chreu 16,000 o swyddi, gan gynhyrchu £900 miliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) erbyn 2030, ac £13 biliwn erbyn 2050. | | |
| Mae Parc Bwyd Sir Benfro yn Barc Bwyd 23 erw arloesol ym Mharc Busnes y Llwynhelyg sy’n darparu cyfleoedd cyffrous ar gyfer twf i ystod eang o gynhyrchwyr bwyd a diod arddangos y cynnyrch gorau o Sir Benfro, sydd wedi'i rannu'n 3 ardal wahanol ac mae o fewn Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau. Bydd yn darparu cyfleoedd datblygu a chyflogaeth i unedau hybu busnesau newydd i symud pobl oddi ar fwrdd eu cegin, gan gefnogi eu datblygiad cychwynnol fel busnes a'u helpu i symud tuag at gamau cyntaf cynhyrchu heb fod wedi tyfu. | Gwasanaeth Adfywio CSP | Wrthi’n mynd rhagddo |
| Mae Grant Gwella Sir Benfro’n defnyddio arian a godir trwy Bremiwm y Dreth Gyngor ar Ail Gartrefi i gefnogi prosiectau sy'n helpu i fynd i'r afael ag effaith negyddol ail gartrefi; wrth wneud hynny mae'n ychwanegu gwerth at ein cymunedau. Mae'r deilliannau’n seiliedig ar bum amcan llesiant:<br><br>• Codi safonau cyrhaeddiad cyffredinol<br>• Cymunedau iach: Cymunedau a gefnogir gan dai fforddiadwy a phriodol; gwella gofal cymdeithasol<br>• Cynyddu cynhyrchiant yr economi a mynd i'r afael â materion adfywio<br>• Diogelu ein hamgylchedd<br>• Cymunedau hunangynhaliol a bywiog | Gwasanaeth Adfywio CSP | Wrthi’n mynd rhagddo |

| **Gwariant Acíwt** | | |
|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Partner Arweiniol | Amserlen |
| Byddwn yn parhau â'r cynllun Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad a Mwy, gan ei ailenwi'n Grant Cymorth Addysg.  Bydd yn cynorthwyo teuluoedd a phobl ifanc mewn caledi difrifol gyda chostau sy'n gysylltiedig ag addysg gan fod â chyllideb flynyddol o £28,000. | Gwasanaeth Addysg CSP | 2023 Wrthi'n mynd rhagddo |
| Adnabod teuluoedd/dysgwyr sydd mewn argyfwng a rhoi cymorth ar unwaith e.e. Parseli bwyd | Coleg Sir Benfro | 2023 Wrthi'n mynd rhagddo |
| Byddwn yn sicrhau bod £100k o gyllid ar gael, trwy Gronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru, a fydd yn rhoi cymorth i 5 lleoliad ysgol lleol ychwanegol yn Sir Benfro weithredu Big Bocs Bwyd, neu fentrau tebyg eraill, mewn dalgylchoedd wedi'u targedu lle mae caledi'n gyffredin.<br><br>Mae Big Bocs Bwyd yn fenter sy'n ceisio sicrhau nad oes yw unrhyw blentyn yn llwglyd, a bod pob plentyn yn gallu dysgu sut i wneud dewisiadau bwyd da sy'n eu galluogi i ffynnu. Yn y prosiect hwn mae plant a theuluoedd yn cael bwyd am brisiau 'talwch beth allwch chi', a ategir gan brofiadau dysgu dilys trwy dyfu a choginio bwyd.<br><br>Mae gosod Big Bocs Bwyd mewn lleoliad ysgol wedi'i gysylltu'n benodol â 4 diben y Cwricwlwm i Gymru, gan sicrhau bod plant:<br>• Yn unigolion iach, hyderus<br>• Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog<br>• Yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus<br>•Yn gyfranwyr mentrus, creadigol | Gwasanaeth Addysg CSP | 2023 Wrthi'n mynd rhagddo |
| Lleihau/clirio ôl-ddyledion rhent tenantiaid trwy gael mynediad at grantiau atal CSP sy'n werth cyfanswm o £20,000 a chyllid pellach trwy Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai. | Gwasanaeth Tai PCC | 2023 |

O ran sut y byddwn yn dwyn ein hunain i gyfrif ac yn monitro cynnydd y targedau a bennwyd gennym, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddangosfwrdd data tebyg i'r hyn y mae cydweithwyr yng Ngheredigion wedi'i ddatblygu. Mae posibilrwydd y gellid comisiynu'r darn hwn o waith, ond ar hyn o bryd nid oes gennym yr holl wybodaeth y mae ei hangen i wneud penderfyniad pa un a fyddai'r grŵp yn penderfynu datblygu'r syniad hwn.

Bydd Cynhadledd Trechu Tlodi flynyddol ar gyfer Sir Benfro yn dechrau yn 2023 gan sicrhau ein bod yn parhau i daflu goleuni ar dlodi yn ei holl ffurfiau ac yn dathlu'r cynnydd a wnaed, yn ogystal â darparu diweddariadau ar raddfa fawr ar unrhyw ddatblygiadau ychwanegol a gwersi a ddysgwyd drwy gydol ein taith barhaus. Y bwriad yw y bydd Coleg Sir Benfro yn cynnal ein cynhadledd gychwynnol yn ystod y misoedd nesaf.

Mae'r Grŵp Tlodi wedi creu perthnasoedd gwaith llwyddiannus a chynhyrchiol sy'n canolbwyntio ar yr agenda tlodi ac felly byddwn yn parhau i gwrdd i sicrhau bod cydweithwyr yn gallu cefnogi ei gilydd i gyflawni'r camau gweithredu yr ydym wedi'u pennu ar y cyd, gydag adborth rheolaidd i BGC Sir Benfro (yn benodol o amgylch y deilliannau mesuradwy a gyflawnwyd). Byddwn yn lleihau amlder y cyfarfodydd i rai chwarterol, gan ganiatáu amser rhwng trafodaeth a myfyrio i weithredu a chreu newid.

Yn bwysicaf oll, rydym yn bwriadu parhau i ymgysylltu â phobl leol sydd â phrofiad personol o dlodi, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed trwy gydol y broses gynllunio a gwneud penderfyniadau. Diolch i'r cysylltiadau cymunedol cryf a amlygwyd yn ystod y gwaith a gomisiynwyd gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, mae gan lawer o bobl leol eisoes ymwybyddiaeth o'r strategaeth hon ac maent wedi mynegi diddordeb mewn parhau â'u perthynas waith gyda'r partïon proffesiynol sy’n rhan ohoni i sicrhau bod y cymorth a gynigiwn yn addas ac yn urddasol i bobl gael gafael ar yr help y mae ei angen arnynt.

[i] https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/sn07096/
[ii] https://ec.europa.eu/eurostat/databrowser/view/tespm010/default/table?lang=en
[iii] https://www.jrf.org.uk/data/uk-poverty-rates-region
[iv] https://www.gov.scot/publications/scottish-child-payment-estimating-the-effect-on-child-poverty/
[v]
https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/regionallabourmarket/february2023?_gl=1*1rvfaz8*_ga*MTcwNjg0MjEwMS4xNjkwMjA5NDQ5*_ga_W804VY6YKS*MTY5MTc1NzM4Ni40LjAuMTY5MTc1NzM4Ni42MC4wLjA.

[vi] https://commonslibrary.parliament.uk/how-has-the-pandemic-affected-industries-and-labour-in-the-uk/

[vii] https://www.jrf.org.uk/report/uk-poverty-2023

[viii] https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-9428/

[ix] https://www.lse.ac.uk/News/Latest-news-from-LSE/2022/l-December-22/By-the-end-of-2021-Brexit-had-already-cost-UK-households-a-total-of-5.8-billion-in-higher-food-bills-%E2%80%93-new-LSE-research

[x] https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2022/03/Wales-Housing-Crisis-Making-the-LHA-work-for-Wales-report-1.pdf

[xi] https://www.theguardian.com/commentisfree/2022/dec/14/dwp-debt-collector-energy-crisis-universal-credit-fuel-payments-gordon-brown

[xii]: https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2022/09/WCPP-Poverty-and-social-exclusion-in-Wales-September-2022-English-final-updated.pdf

[xiii] https://www.jrf.org.uk/data/uk-child-poverty-rates-local-authority

[xiv] https://endchildpoverty.org.uk/child-poverty/

[xv] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Workless-Households/childrenlivinginworklesshouseholds-by-area-variable-householdstatus

[xvi] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/Archive/WIMD-Indicator-Data-By-Age/noqualifications-by-localauthority

[xvii] https://www.audit.wales/cy/our-work/data-tools a
https://app.powerbi.com/view?r=eyJrIjoiNDg4Y2M3NjctYWUyMS00NTQ2LWJhNmUtZmVjMmZhOGU2YjUyIiwidCI6ImRmZDY5MmYwLTE2YmYtNDQ0OS04OGUzLWU3NzM1ZGZjY2ZlOCIsImMiOjh9&pageName=ReportSection0d8d49278965a2510172